

WEDI'I YRRU GAN
**FFYNIANT
— BRO —**

POWERED BY
**LEVELLING
— UP —**



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



TREGARON

Arfarniad Ardal Gadwraeth

Mehefin 2025

Paratowyd ar gyfer

Cyngor Sir Ceredigion

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

Tabl Cynnwys

Arfarniad Ardal Gadwraeth Tregaron

| | | |
|-----|--|----|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Cyflwyniad i Ardal Gadwraeth Tregaron | 5 |
| 3. | Deddfwriaeth, Polisi Cyllunio a Chanllawiau | 7 |
| 4. | Diffiniad o Ddiddordeb Pensaerniol neu Hanesyddol Arbennig | 10 |
| 5. | Lleoliad a Chyd-Destun Ffisegol | 15 |
| 6. | Datblygiad Hanesyddol | 17 |
| 7. | Dadansoddiad Gofodol a Chymeriad Pensaerniol | 25 |
| 8. | Asedau Hanesyddol Dynodedig | 34 |
| 9. | Cymdeithasau a Thraddodiadau Hanesyddol | 38 |
| 10. | Hanesion Cudd | 39 |
| 11. | Bioamrywiarth | 39 |
| 12. | Materion—Dadansoddiad CGCB | 41 |

Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Tregaron

| | | |
|-----|--|----|
| 1. | Cyflwyniad | 42 |
| 2. | Cyfarwyddiadau Erthygl 4 | 42 |
| 3. | Adolygiad Ffin | 44 |
| 4. | Yr Angen am Ganllawiau Dylunio Manwl neu Wybodaeth Gyhoeddus | 48 |
| 5. | Cyfleoedd ar gyfer Rhestru Lleol | 52 |
| 6. | Ystyried Gorfodi | 53 |
| 7. | Cyfleoedd ar gyfer Adfywio | 54 |
| 8. | Canllawiau Hysbysebu a Rheoli | 57 |
| 9. | Adeiladau mewn Perygl | 59 |
| 10. | Gwelliannau Amgylcheddol | 61 |
| 11. | Coed, Tirwedd a Mannau Agored | 63 |
| 12. | Monitro ac Adolygu | 64 |
| | Atodiad A: Cynllun Gweithredu | 66 |
| | Atodiad B: Cyfeiriadau a Llyfryddiaeth | 69 |

1. CYFLWYNIAD

1.1 Yr Amgylchedd Hanesyddol yng Ngheredigion

- 1.1.1 Mae tirwedd Ceredigion â thystiolaeth gyfoethog o'r gorffennol. Mae'r term 'amgylchedd hanesyddol' yn disgrifio canlyniadau rhyngweithio dynol â'r amgylchedd naturiol dros filoedd lawer o flynyddoedd, gan gynnwys yr adeiladau, henebion, ardaloedd cadwraeth, trefluniau a thirweddau rydym yn eu gwerthfawrogi fel cymuned ac yn dymuno eu cadw. Bwriad y gyfres hon o arfarniadau a chynlluniau rheoli yw cynorthwyo'r Cyngor a'r gymuned leol / y cyhoedd i ddeall gwerth a diddordeb arbennig yr ardaloedd cadwraeth yng Ngheredigion, a'r ffordd orau o'u diogelu a'u gwella.
- 1.1.2 Mae llawer o nodweddion hanesyddol yn cael eu diogelu trwy ddeddfwriaeth a'r system gynllunio (gweler isod). Yn ogystal ag asedau dynodedig Ceredigion mae nifer o nodweddion heb eu dynodi gan gynnwys safleoedd archeolegol ac adeiladau hanesyddol. Gall asedau heb eu dynodi fod yn fwy agored i newidiadau anghydnaws neu golled trwy ddatblygu a gwaith arall. Yn ogystal â dadansoddi cyfraniad asedau dynodedig i drefi Ceredigion, gall cydnabod asedau heb eu dynodi, trwy ddulliau megis yr arfarniad hwn, helpu i nodi eu harwyddocâd a'u diogelu ar gyfer y dyfodol. Yng Nghymru, mae dros 200,000 o asedau treftadaeth heb eu dynodi wedi'u cofnodi ar y pedwar Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol sydd bellach yn ystyriaeth yn y system gynllunio o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.



Ffig. 1 Golygfa gyffredinol o Ardal Gadwraeth Tregaron

- 1.1.3 Mae 1896 o adeiladau ac adeileddau wedi'u cynnwys yn y 'Rhestr o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol a Hanesyddol Arbennig' yng Ngheredigion. Mae llawer mwy o adeileddau a adeiladwyd cyn 1948 wedi'u diogelu gan eu bod o fewn 'cwrtil' adeilad rhestredig. Mae adeilad rhestredig yn un sydd wedi cael ei nodi, gan Cadw, fel un o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol cenedlaethol. Oherwydd hynny, byddai angen caniatâd ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n effeithio ar gymeriad yr adeiledd neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol – a elwir yn Ganiatâd Adeilad Rhestredig. Yn groes i'r gred gyffredin, mae'r rhestriad yn cwmpasu'r adeilad cyfan – y tu mewn a'r tu allan, ac yn cynnwys unrhyw osodiadau neu ffitiadau.
- 1.1.4 Mae gan Geredigion 262 o Henebion Cofrestredig. Cofrestru yw'r ffordd y mae heneb neu safle archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei gydnabod gan y gyfraith. Mae'r term 'heneb gofrestredig' yn eang ei gwmpas ac yn cynnwys nid yn unig cestyll adnabyddus, abatai a safleoedd claddu cyn-hanesyddol, ond hefyd safleoedd megis odynau calch, aneddiadau canoloesol amddifad ac olion y diwydiant haearn, glo a llechi. Mae rhai henebion cofrestredig yn cynnwys adeiladau sy'n sefyll neu adfeilion ac nid oes gan eraill olion gweladwy uwchben y ddaear, ond mae eu harcheoleg gladdedig o bwysigrwydd cenedlaethol. Nod cofrestru yw gwarchod y dystiolaeth archeolegol sydd wedi goroesi o fewn safleoedd a henebion. Mae hyn yn cynnwys ffabrig ffisegol yr heneb, ei lleoliad ac unrhyw arteffactau cysylltiedig a thystiolaeth amgylcheddol. Mae hyn yn golygu os ydych am wneud gwaith a fyddai'n newid heneb gofrestredig yn ffisegol, mae'n debyg y bydd angen i chi wneud cais i Cadw am ganiatâd – a elwir yn Ganiatâd Heneb Gofrestredig.
- 1.1.5 Mae 12 o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Ngheredigion. Mae cofrestru yn nodi parciau a gerddi sydd o ddiddordeb hanesyddol arbennig i Gymru. Maent yn amrywio o ran dyddiad o'r cyfnod canoloesol i ganol yr ugeinfed ganrif. Mae cofrestru yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio; rhaid i awdurdodau cynllunio lleol ystyried diddordeb hanesyddol y safle wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer unrhyw newidiadau neu beidio.
- 1.1.6 Mae pedair ardal yng Ngheredigion wedi'u dynodi trwy'r Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Y mwyaf o'r rhain yw Tirwedd Hanesyddol Ucheldir Ceredigion sy'n gorchuddio llawer o rannau dwyreiniol a gogleddol y sir. Mae Tirwedd Hanesyddol Dyffryn Teifi Isaf wedi'i lleoli yn y de-orllewin, ac mae'n cael ei rhannu'n rhannol â Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae Tirweddau Hanesyddol Dyffryn Drefach-Felindre a Thywi wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, ond mae rhan ohonynt hefyd wedi'i lleoli o fewn ffin ddeheuol Ceredigion.

1.1.7 Mae gan Geredigion 13 o ardaloedd cadwraeth dynodedig hefyd, sy'n golygu bod rheolaethau ychwanegol ar gyfer dymchwel (sy'n gofyn am Ganiatâd Ardal Gadwraeth) a gwneud gwaith ar goed yn yr ardaloedd hyn. Yr ardaloedd cadwraeth yw:

- Aberaeron
- Aberystwyth
- Adpar
- Aberteifi
- Llanbedr Pont Steffan
- Llanbadarn Fawr
- Llandysul
- Cenarth
- Llanddewi Brefi
- Llanrhystud
- Llansantffraed
- New Quay
- Tregaron

Ar adeg ysgrifennu, mae gan Aberteifi, Llanddewi Brefi a Thregaron Gyfarwyddiadau Erthygl 4 yn eu lle. Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn dileu'r hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer adeilad, safle neu ardal benodol sy'n golygu bod mwy o gyfyngiadau o ran pa waith y gellir ei wneud heb fod angen caniatâd cynllunio. Mae coed mewn ardaloedd cadwraeth hefyd yn cael eu diogelu: rhaid rhoi 6 wythnos o rybudd i'r awdurdod lleol cyn gwneud gwaith ar goed mewn ardal gadwraeth.

1.2 Ardaloedd Cadwraeth

- 1.2.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Cynllunio Lleol gadw neu wella cymeriad a golwg ardaloedd cadwraeth dynodedig o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol nodi a dynodi ardaloedd cadwraeth newydd trwy benderfynu pa rannau o'u hardal sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.
- 1.2.2 Mae mwy na 500 o ardaloedd cadwraeth yng Nghymru ac maent yn cael eu gwerthfawrogi fel lleoedd arbennig gan y rhai sy'n ymweld â nhw ac yn byw neu'n gweithio yno.
- 1.2.3 Mae ardaloedd cadwraeth â thystiolaeth ffisegol gyfoethog o'r gorffennol. Mynegir eu diddordeb arbennig yng nghymeriad yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Gallai hyn fod yn batrwm yr anheddiad, trefn y gofod a'r lleiniau adeiladu a'r rhwydweithiau o lwybrau yn ogystal â'r arddull a'r math o adeiladau, eu deunyddiau a'u manylion.
- 1.2.4 Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

1.3 Arfarniadau a Chynlluniau Rheoli

- 1.3.1 Mae adran 71 o Ddeddf 1990 yn nodi y bydd yn ddyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw rannau o'i ardal sy'n ardaloedd cadwraeth. Mae Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol yn datgan mai arfarniadau ardaloedd cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer cynigion o'r fath gan eu bod yn darparu sail ar gyfer cynlluniau rheoli manylach.
- 1.3.2 Arfarniad ardal gadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer rheolaeth gadarnhaol. Mae'n rhoi darlun manwl o'r hyn sy'n gwneud ardal yn arbennig a gellir ei ddefnyddio i nodi cyfleoedd a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae'r arfarniad yn cynnig cyd-ddealltwriaeth o gymeriad a phwysigrwydd, ac yn amlygu problemau a photensial, y gellir eu defnyddio fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer cynllun rheoli manylach wedi'i ategu gan fframwaith polisi lleol cadarn.
- 1.3.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi comisiynu The Griffiths Heritage Consultancy i baratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli, ochr yn ochr ag adolygu ffiniau, ar gyfer yr ardaloedd cadwraeth mewn 6 o drefi'r sir.
- 1.3.4 Mae'r arfarniadau a'r cynlluniau rheoli wedi bod yn destun ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd fel y nodir yn adran 4.5.6. Os cytunir arnynt, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus pellach, byddant yn cael eu mabwysiadu gan Gyngor Sir Ceredigion fel canllawiau cynllunio atodol (CCA).



Ffig. 2 Mae amrywiaeth o bensaernïaeth hanesyddol yng nghanol Tregaron

2. CYFLWYNIAD I ARDAL GADWRAETH TREGARON

2.1 Statws Ardal Gadwraeth

2.1.1 Dynodwyd ardal gadwraeth Tregaron yn 1989. Dangosir y ffin bresennol drosodd. Nid yw unrhyw ddiwygiadau wedi cael eu gwneud i'r ffin ers ei dynodi.

2.1.2 Nid oes Arfarniad Ardal Gadwraeth neu Gynllun Rheoli cyfredol ar gyfer yr ardal gadwraeth.

2.2 Lleoliad a Safle

2.2.1 Mae Tregaron wedi'i lleoli ym mhen uchaf Dyffryn Teifi ar afon Brenig, un o lednentydd afon Teifi, ac mae'n 11 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Lanbedr Pont Steffan ac 18 milltir i'r de-ddwyrain o Aberystwyth rhwng Llangeitho a Llanddewi Brefi.

2.2.2 Saif Tregaron ar odre Mynyddoedd Cambria ar groesffordd o lwybrau i'r gogledd, de, dwyrain a gorllewin a man croesi'r afon. Mae hefyd yn agos i Ystrad Fflur a Llanddewi Brefi, y ddwy yn ganolfannau crefyddol pwysig yn y cyfnod canoloesol.


2.3 Disgrifiad Cryno

2.3.1 Anheddiad bach yn y cyfnod cyn Eingl-Normanaidd yn 1290, rhoddodd Edward I y breintiau i Geoffrey Clement i gynnal marchnad wythnosol a dwy ffair flynyddol. Tyfodd Tregaron yn dref farchnad ar gyfer yr ardal – ardal o ddaliadau amaethyddol gwasgaredig o wahanol faint. I'r de roedd cefn gwlad eang, ffrwythlon ac i'r dwyrain tîrfeddianwyr cyfoethog gyda daliadau ucheldir helaeth. I'r gogledd mae Cors Caron a oedd yn dir amaethyddol ffrwythlon pan gafodd ei ddraenio.



Ffig. 3 Saif mawnogydd Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron i'r Gogledd

Ffig. 4 Ffin bresennol Ardal Gadwraeth Tregaron



Cyngor Sir Ceredigion
Ceredigion County Council
 Neudd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
 Ffôn/Tel. 01545 570881

Tregaron

Alwedd / Key



Ardal Gadwraeth

G N

Graddfa / Scale: 1:3,062
 Argraffwyd ar / Printed on: 2024-04-15

© Hewlett-Packard Development Company, 2004. Ordnance Survey, 100024419
 © Crown copyright and database rights, 2024. Ordnance Survey, 100024419
 © Hewlett-Packard Development Company, 2004. Ordnance Survey, 100024419
 © Esri, 2024. All rights reserved. Esri, the Esri logo, ArcGIS, the ArcGIS logo, and ArcGIS Online are either registered trademarks or trademarks of Esri in the United States and/or other countries.
 © Esri, 2024. All rights reserved. Esri, the Esri logo, ArcGIS, the ArcGIS logo, and ArcGIS Online are either registered trademarks or trademarks of Esri in the United States and/or other countries.

I'r gorllewin roedd ffermwyr hunangynhaliol ar dyddynnod yn ucheldiroedd Mynyddoedd Cambria. Roedd y bobl hyn i gyd yn dibynnu ar y farchnad wythnosol yn Nhregaron. Yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg tyfodd y dref ymhellach oherwydd ei lleoliad fel man aros pwysig i borthmyn cyn neu ar ôl iddynt groesi tiroedd caled Mynyddoedd Cambria, ond ni ddatblygodd fawr ddim y tu allan i'r craidd hanesyddol tan ddiwedd yr 20fed ganrif.

- 2.3.2 Er ei bod yn dal yn dref fach Tregaron yw'r unig anheddiad sylweddol yn nhirwedd ucheldir Ceredigion. Mae'n dal i gynnal ei marchnad da byw ac yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer gwasanaethau amaethyddol lleol. Mae'r craidd hanesyddol wedi'i ganoli ar sgwâr marchnad a'r eglwys ganoloesol, Eglwys Sant Caron, gyda datblygiad eilaidd i'w weld ar lan orllewinol afon Brenig ger yr hen orsaf reilffordd. Nid yw'n anheddiad wedi'i gynllunio ac mae'r rhan fwyaf o adeiladau yn wynebu'r strydoedd cul, troellog. Mae'r rhan fwyaf o'r stoc adeiladau hŷn yn dyddio o'r 19eg ganrif. Mae'n dal i ddarparu canolfan gwasanaethau lleol ar gyfer dalgylch estynedig, ac mae hefyd yn dibynnu ar dwristiaeth ar raddfa fach. Mae gan Dregaron fywyd diwylliannol bywiog gyda llawer o glybiau a sefydliadau.

3. DEDDFWRIAETH, POLISI CYNLLUNIO A CHANLLAWIAU

3.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 3.1.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i 'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.
- 3.1.2 Cydnabyddir yn gyffredinol y gall yr amgylchedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau a chyfrannu at ansawdd bywyd a llesiant. Os yw'r amgylchedd hanesyddol yn mynd i barhau i ddarparu ei fuddion cyfoethog i gymunedau mae angen nodi'r hyn sy'n arwyddocaol a rheoli newid mewn modd sensitif a chynaliadwy.
- 3.1.3 Mae rheoli newid mewn modd cadarnhaol ar sail dealltwriaeth lawn o gymeriad ac arwyddocâd yr ardal yn hanfodol i gynnal ansawdd arbennig ardal benodol (neu unrhyw ased treftadaeth). Ategir hyn gan godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r buddion y gallant eu darparu a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud hynny.

3.2 DEDDF YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL (CYMRU) 2023

- 3.2.1 Daeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 ('Deddf 2023') i rym ar 4 Tachwedd 2024 ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Diddymodd y ddeddfwriaeth ganlynol yng Nghymru:

- Deddf Adeiladau a Henebion Hanesyddol 1953
- Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979
- Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016



Ffig. 5 Tregaron yw'r unig anheddiad sylweddol yn nhirwedd ucheldir Ceredigion

- 3.2.2 Mae Deddf 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol: roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw: yr adeilad rhestredig; gosodiad yr adeilad; ac unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig sydd gan yr adeilad wrth ystyried a ddylid rhoi caniatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad.
- 3.2.3 Mae Deddf 2023 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol, wrth arfer swyddogaeth gynllunio mewn perthynas ag adeilad neu dir arall mewn ardal gadwraeth, roi sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu olwg yr ardal honno.

3.3 Polisi Cenedlaethol a Chanllawiau

- 3.3.1 Mae *Polisi Cynllunio Cymru* (Rhifyn 12, 2024) yn gosod y cyd-destun ar gyfer polisi defnydd tir cynaliadwy yng Nghymru ac yn nodi'r angen i hyrwyddo dylunio da.

- 3.3.2 Mae polisi ar yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gynnwys ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisiau cenedlaethol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol arfer rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella cymeriad ardal gadwraeth a/neu ei lleoliad wrth ystyried cynigion datblygu.
- 3.3.3 Mae *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* yn rhoi arweiniad ar sut i ystyried yr amgylchedd hanesyddol mewn cynlluniau datblygu a phenderfyniadau cynllunio.
- 3.3.4 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried cyhoeddiad (2011) *Cadw Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (Egwyddorion Cadwraeth) er mwyn sicrhau newid sensitif o ansawdd uchel. Mae'r ddogfen yn nodi chwe egwyddor arweiniol ar gyfer cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol:
- Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd
 - Mae deall pwysigrwydd asedau hanesyddol yn hollbwysig
 - Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir
 - Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol
 - Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson
 - Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt
- 3.3.5 Mae Cadw hefyd wedi cynhyrchu cyfres o gyhoeddiadau canllawiau arfer gorau. Mae'r rhain yn ategu'r fframwaith deddfwriaethol, polisi a chyngor cynllunio cysylltiedig ac yn cefnogi'r rheolaeth gynaliadwy o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys: *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru; Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru; Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru; Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru, a Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig*, ymysg eraill.
- 3.3.6 Mae cyhoeddiad Cadw *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (2017) yn ategu Polisi Cynllunio Cymru a TAN 24 ac yn nodi'r cyd-destun polisi a'r dyletswyddau i awdurdodau cynllunio lleol ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arfer da ar gyfer eu dynodi a'u harfarnu, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisiau lleol ar gyfer rheoli a gwella mewn ffordd gadarnhaol fel bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu cadw a'u gwella.

3.4 Polisi Cynllunio Lleol

- 3.4.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion (CDL11): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) yn nodi polisiau a chynigion penodol ar gyfer datblygu a defnyddio tir yng Ngheredigion am y cyfnod o

15 mlynedd hyd at 31 Mawrth 2022. Fodd bynnag, mae'r CDLI newydd (CDLI2) wedi'i atal ar hyn o bryd oherwydd materion yn ymwneud â ffosffad ac felly CDLI1 yw'r Cynllun Datblygu cyfredol ar gyfer y sir.

- 3.4.2 Yn CDLI1, mae Polisi DM07 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau o fewn ardaloedd cadwraeth ddangos y rhoddwyd ystyriaeth i Arfarniadau Ardal Gadwraeth, lle maent ar gael, a chanllawiau cenedlaethol.
- 3.4.3 Mae Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio yn darparu canllawiau atodol ar gyfer datblygiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol neu sy'n effeithio arno.

4. DIFFINIAD O DDIDDORDEB PENSAERNÏOL NEU HANESYDDOL ARBENNIG

4.1 Crynodeb o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig

| EVIDENTIAL SIGNIFICANCE | HISTORICAL SIGNIFICANCE | AESTHETIC SIGNIFICANCE | COMMUNAL VALUES |
|-------------------------|-------------------------|------------------------|-----------------|
| MEDIUM | HIGH | HIGH / MEDIUM | HIGH |

4.1.1 Mae'r tabl hwn, ynghyd â'r esboniadau isod, yn crynhoi cyflwr yr ardal gadwraeth ar hyn o bryd ac yn nodi'r diddordeb arbennig a ddylai gael ei gadw, a hefyd lle gellir gwneud gwelliannau. Maent yn seiliedig ar yr ymchwil a'r asesiad ffisegol a hanesyddol a gynhaliwyd ar gyfer yr arfarniad hwn ac a ddefnyddir ar y cyd â chyhoeddiad Cadw *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy* (2011), sy'n nodi pedwar gwerth treftadaeth ar gyfer nodi arwyddocâd:

- **Gwerth tystiolaethol:** mae gan bob ased hanesyddol stori unigryw i'w hadrodd. Mae'r ffabrig a'r manylion hanesyddol sydd wedi goroesi — boed uwchben neu o dan y ddaear — yn ein helpu i ddeall pryd a sut y cafodd pob ased hanesyddol ei wneud, sut y cafodd ei ddefnyddio a sut y mae wedi newid dros amser. Gall ffynonellau darluniadol a

dogfennol wella ein dealltwriaeth hefyd.

Ffig. 6 Mae gwerth tystiolaethol i natur gylchol y fynwent am ei bod yn dangos ei gwreiddiau cynharach (gweler 6.1.1)



- **Gwerth hanesyddol:** gall asedau hanesyddol daflu goleuni ar agweddau penodol ar y gorffennol. Gallant ein helpu i ddeall sut roedd pobl yn byw ac yn gweithio, a'r credoau a'r gwerthoedd roeddent yn eu coleddu. Gallant fod yn gysylltiedig â phobl neu ddigwyddiadau nodedig. Trwy atgofio a chysylltu, gall asedau hanesyddol gysylltu pobl, agweddau ar fywyd a digwyddiadau o'r gorffennol â'r presennol.
- **Gwerth esthetig:** gallwn werthfawrogi asedau hanesyddol am eu nodweddion gweledol, p'un a ydynt yn deillio o ddylunio a chreffftwaith ymwybodol, neu o effaith ffodus newid dros amser. Mae chwaeth yn newid ac mae asedau hanesyddol yn newid hefyd: gall cofnodion cynharach a dadansoddiad gofalus o'r hyn sydd wedi goroesi helpu i werthfawrogi gwerth esthetig.
- **Gwerth cymunedol:** gall asedau hanesyddol gael eu coleddu gan y bobl a'r cymunedau sy'n gysylltiedig â nhw, a gallant chwarae rhan bwysig mewn profiad neu gof cyfunol. Gall asedau hanesyddol fod â gwerth economaidd yn ogystal â gwerth cymdeithasol gyda'r gallu i ddarparu ffynhonnell werthfawr o incwm neu gyflogaeth.

4.1.2 Mae'r termau 'arwyddocâd' a 'gwerth' yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol yn y cyd-destun hwn ac mae'r ddau yn cyfrannu at nodi 'diddordeb arbennig' lle.

4.2 Tystiolaethol – Arwyddocâd Canolig

4.2.1 Mae rhywfaint o botensial bod nodweddion archeolegol cynhanesyddol wedi goroesi yn yr ardal.

4.2.2 Mae gan Dregaron botensial archeolegol uchel oherwydd ei statws blaenorol fel canolfan farchnad ganoloesol bwysig a'i chysylltiadau Cristnogol cynnar. Tra bod datblygiadau diweddarach yn dominyddu'r stoc adeiladau, mae olion posibl cyn-anheddiad o fewn craidd hanesyddol y dref. Mae gan y cynllun stryd wreiddiau canoloesol hefyd.

4.2.3 Mae'n debygol y gallai rhai o'r adeiladau cynharach ddangos tystiolaeth o grefftwaith, traddodiadau adeiladu a deunyddiau adeiladu o'r 18fed ganrif, er gwaethaf newidiadau diweddarach.

4.2.4 Mae ehangiad a datblygiad y dref yn y 19eg ganrif yn amlwg trwy ei hadeiladau, strwythurau ac archif hanesyddol.

4.3 Hanesyddol – Arwyddocâd Uchel

4.3.1 Mae gan Dregaron linell amser hanesyddol hir gyda pheth tystiolaeth o weithgarwch cynhanesyddol yn yr ardal a thystiolaeth gryfach o gymuned Gristnogol gynnar o bosibl yn

gysylltiedig â Llanddewi Brefi gerllaw. Roedd y cyfnod Cristnogol cynnar hwn yn gyfnod pwysig gan osod y sylfaen ar gyfer y patrwm o aneddiadau a ffiniau gweinyddol yng Ngheredigion a Chymru ehangach ac olion ffisegol y dirwedd o batrymau caeau, cynlluniau aneddiadau, capeli, ffynhonnau a cherrig coffa.

- 4.3.2 Roedd gan Dregaron rôl gymharol anarferol yn y cyfnod canoloesol. Yn wahanol i aneddiadau allweddol eraill yng Ngheredigion roedd yn lle heddychlon ar y cyfan, mwy na thebyg oherwydd nad oedd castell Eingl-Normanidd strategol yma. Yn hytrach roedd yn darparu canolfan grefyddol, gymdeithasol ac economaidd bwysig ar gyfer ei chefnwlad wledig.
- 4.3.3 Mae ehangiad a datblygiad Tregaron yn y cyfnod ôl-ganoloesol yn dyst i'r rôl bwysig oedd gan y dref o ran cefnogi a hwyluso'r economi wledig.
- 4.3.4 Mae'r dref yn parhau i fod yn ganolfan wasanaeth ar gyfer ei chyffiniau gwledig ac mae ganddi rôl werthfawr i'w chwarae yn economi twristiaeth Ceredigion a Gorllewin Cymru.

4.4 Esthetig – Arwyddocâd Uchel / Canolig

- 4.4.1 Mae canol tref Tregaron yn ddeniadol gyda chymeriad pentrefol penodol. Mae'r sgwâr canolog yn ganolbwynt wedi'i amgylchynu'n bennaf gan adeiladau neo-Sioraidd.
- 4.4.2 Mae'r afon ganolog, y mae'r dref wedi datblygu bob ochr iddi, yn nodweddiadol o lawer o drefi a phentrefi Gorllewin Cymru. Mae afon Brenig yn arbennig o hardd yma oherwydd nid



Ffig. 7 Mae afon Brenig yn rhedeg trwy ganol yr ardal gyda datblygiad hyd at ei hymyl

yw'n rhy fawr nac yn rhy fach, ac oherwydd ei chamlaseiddio rhannol mae'r anheddiad ar y naill ochr a'r llall wedi datblygu hyd at ei hymyl.

- 4.4.3 Mae Pendre a Doldre, gyda'u bythynnod bach o gyfnodau gwahanol a'u lonydd troellog, hefyd yn arbennig o hardd, a'r ffordd orau o'u darganfod yw ar droed er mwyn gwerthfawrogi'r nodweddion hanesyddol a phensaernïol llai.
- 4.4.4 Mae rhywfaint o'r purdeb pensaernïol wedi cael ei golli gyda newidiadau diweddarach gan gynnwys disodli nodweddion megis ffenestri, drysau, blaenau siopau traddodiadol ac ati.
- 4.4.5 Mae lleoliad Tregaron a'r dirwedd ehangach yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei lleoliad gyda phrydferthwch gwyllt Mynyddoedd Cambria ac ecoleg a hygyrchedd Cors Caron yn denu ymwelwyr o bell ac agos yn ogystal â chael eu mwynhau gan gymunedau lleol.
- 4.4.6 Er bod esthetig Tregaron yn gadarnhaol ar y cyfan, mae rhai nodweddion negyddol megis safleoedd bach anniben y gellid eu gwella a dirywiad yn ei swyn, ei chymeriad a'i golwg cyffredinol trwy'r defnydd o ddeunyddiau modern a dylunio, addasiadau a nodweddion anghydnaws.

4.5 Cymunol – Arwyddocâd Uchel

- 4.5.1 Bu gan Dregaron rôl bwysig ar gyfer y gymuned leol ac ehangach trwy gydol ei bodolaeth. O'i dechreuad fel cymuned Gristnogol gynnar, ei rôl fel canolfan weinyddol, economaidd a chymdeithasol yn y cyfnod canoloesol ac ôl-ganoloesol, hyd at ei rôl fel canolfan gwasanaethau lleol heddiw, mae Tregaron yn dangos ei phwysigrwydd i gymuned wledig fawr wasgaredig.
- 4.5.2 Mae'r gwasanaethau a ddarparwyd gan y dref trwy gydol ei hanes wedi cefnogi systemau economaidd a chymdeithasol ehangach Gorllewin Cymru, yn enwedig trwy ei rôl grefyddol gynnar a'i marchnadoedd amaethyddol diweddarach a chefnogi economi'r porthmyn.
- 4.5.3 Er nad yw twristiaeth heddiw yn chwarae rhan fawr yn ei heconomi, efallai fod Tregaron wedi bod yn lle i ymwelwyr erioed. O bererinion cynnar, y ffair ganoloesol a phobl oedd yn dod i'r farchnad, i'r gymuned porthmyn a theithwyr estynedig, mae Tregaron bob amser wedi bod yn lle i gwrdd, gwneud busnes a chael bwyd, cwmni a lloches.
- 4.5.4 Mae'r ardal gadwraeth yn cynnwys nifer o adeiladau cyhoeddus ac adnoddau cymunedol megis yr eglwys, y Ganolfan Dreftadaeth, tafarndai, capeli, siopau, caffis, gwestai, ac adeiladau cymunedol ymysg eraill.
- 4.5.5 Yn ystod y broses o lunio'r arfarniad hwn anfonwyd arolwg ar-lein at randdeiliaid yn gofyn iddynt nodi beth oedd yn bwysig, yn eu barn nhw, am yr ardal gadwraeth a nodi unrhyw

broblemau.



Ffig. 8 Mae gan y Ganolfan Dreftadaeth, sy'n cael ei rhedeg gan wirfoddolwyr, werth cymunedol uchel

4.5.6 Roedd y digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus yn ceisio casglu gwybodaeth a barn rhanddeiliaid ar yr ardal gadwraeth. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad galw heibio ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd yn Nhregaron yn ystod Ionawr 2024. Rhannwyd copïau electronig o'r Cynllun Rheoli drafft â rhanddeiliaid. Daeth un deg wyth o bobl (ac un ci!) i'r sesiwn galw heibio sy'n nifer uchel iawn ar gyfer cymuned fach. Derbyniwyd nifer dda o sylwadau sydd wedi cael eu defnyddio i adolygu'r arfarniad. Roedd yr ymatebion yn ymwneud â'r materion canlynol, ymysg eraill:

- Cefnogaeth ar gyfer ymestyn y ffin ac awgrymiadau ar gyfer ei hymestyn ymhellach
- Cefnogaeth ar gyfer gwella amgylcheddol e.e. safleoedd anniben, safleoedd ychwanegol
- Pryderon am ddyfodol Trefelin, Adeilad Rhestredig Gradd II gwag
- Y broblem o eiddo gwag yn yr ardal gadwraeth
- Hyrwyddo asedau hanesyddol yn well (e.e. defnyddio hysbysfwrdd electronig y Sgwâr, teithiau ac ati)
- Angen cynnal a chadw adeiladau hanesyddol yn well
- Priffyrdd a manau agored yn amharu ar yr ardal gadwraeth (ffyrdd heb eu mabwysiadu a'r ardal ger y B4343 (gweler y map isod) ac i'r gorllewin o'r Talbot)
- Angen cyllid i wella blaenau siopau

- Menter Treftadaeth Treflun Tregaron wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol
- Nid yw pobl leol yn poeni am barcio ar y stryd ac yn teimlo y byddai unrhyw gyfyngiadau parcio yn cael effaith negyddol ar gael mynediad i siopau a gwasanaethau lleol
- Byddai ymestyn oriau agor y Ganolfan Dreftadaeth yn anodd gyda'r adnoddau presennol
- Gallai eiddo gwag gynnig cyfleoedd i ehangu busnesau lleol
- Angen bod yn glir beth allai 'gwella golygfeydd o'r eglwys' ei olygu mewn gwirionedd


4.5.7 O brofiad, ystyrir bod y gyfradd ymgysylltu hon yn gadarnhaol iawn. Mae'n amlwg o'r ymatebion ysgrifenedig a llafar bod y gymuned leol yn ymfalchïo'n fawr yn y dref, ei phensaernïaeth a'i hanes, a hoffent iddi gael ei chadw a'i gwella. Yn benodol, nodwyd bod angen mwy o fuddsoddiad mewn prosiectau penodol, megis mynd i'r afael ag eiddo gwag a gwelliannau amgylcheddol ar gyfer safleoedd anniben.

5. LLEOLIAD A CHYD-DESTUN FFISEGOL

5.1 Daeareg a Thopograffeg

5.1.1 Saif Tregaron o fewn gwastadedd bach wrth gydlifiad dyffryn afon Brenig a nifer o ddyffrynnoedd bach sy'n ymledu i'r dwyrain a'r gorllewin. Rhan isaf Cors Caron sy'n dominyddu'r gogledd tra bod brynïau uchel Mynyddoedd Cambria yn rhedeg ar lein ogledd-ddwyreiniol i dde-orllewinol i'r gorllewin o'r dref.

Ffig. 9 Map topograffig o Dregaron



(<https://en-gb.topographic-map.com/map-6vknx/Tregaron/>)

- 5.1.2 Mae Tregaron yn weddol isel, tua 168m uwchlaw lefel y môr, o'i gymharu â'i chefnwlad ehangach. Mae'r tir yn codi ychydig i ochr orllewinol y dref tra bod ei daearyddiaeth ganolog wedi'i dominyddu gan ddyffryn yr afon a'i gorlifdir.
- 5.1.3 Mae creigiau Silwraidd cynnar yn gorwedd o dan ran uchaf dyffryn Teifi tra bod ochrau agored y dyffryn a cheunentydd y dyffryn isaf yn rhai Ordofigaidd. Mae'r dilyniant wedi'i ddominyddu gan dyrbidtau, sef math o graig waddodol sy'n cynnwys dilyniannau ailadroddus o dywodfeini, cerrig silt a cherrig llaid mewn gwahanol gyfrannau. Mae rhan uchaf Dyffryn Teifi, sy'n ymestyn i'r gogledd-ddwyrain o Lanybydder, yn gorwedd ar hyd olion anticlinoriwm afon Teifi sy'n cynnwys amrywiaeth o blygiadau sy'n gorwedd i'r gogledd-ddwyrain. Diffinnir ochr ddwyreiniol y dyffryn yn yr ardal hon gan ffawt Teifi y gellir ei holrhain i'r gogledd-ddwyrain fel llinell dopograffig gryf ar hyd y trawsnewid â Mynyddoedd Cambria o Gwm-ann i Dregaron. Mae'r strwythur hwn yn amlwg wedi rheoli cyfeiriadedd y dyffryn yn yr ardal hon.

5.2 Cymeriad Tirwedd

- 5.2.1 Fel yn achos nifer o'r ardaloedd cadwraeth eraill yng Ngheredigion, mae Tregaron wedi'i lleoli o fewn Ardal Cymeriad Tirwedd Genedlaethol Dyffryn Teifi. Mae'r ardal hon yn cwmpasu cwrs yr afon hwyaf yng Ngorllewin Cymru a'i haneddiadau cysylltiedig. Mae disgrifiad Cyfoeth Naturiol Cymru o ardal Tregaron yn cynnwys y pwyntiau perthnasol canlynol:
- Mae'r dyffryn yn un wledig yn bennaf ac wedi'i hamgáu ar gyfer amaethyddiaeth, ac mae amrywiaeth eang o feintiau caeau ac ardaloedd â gwrychoedd trwchus yn amgáu porfeydd yn bennaf;
 - Mae Cors Caron yn cael ei nodi fel un o'r tirweddau cyforgorsydd mwyaf cyflawn ac ecolegol bwysig yn y DU;
 - Mae adeiladau traddodiadol yn syml o ran ffurf wedi'u gwneud o gerrig a llechi lleol, ond mae adeiladau modern yn dangos mwy o amrywiaeth o ran arddull a deunyddiau;
 - Mae tuedd i liwio hen adeiladau yn llachar;
 - Mae safleoedd melinau a ffatrioedd yn dangos y defnydd hanesyddol o'r afon i gynhyrchu pŵer;
 - Fel arfer mae'r golygfeydd ar hyd y dyffryn ac nid yw presenoldeb Mynyddoedd Cambria cyfagos yn dominyddu'r olygfa;
 - Nid yw'r ffyrdd sy'n mynd ar hyd ac ar draws y dyffryn yn brif lwybrau trafndiaeth ond maent yn cysylltu'r trefi marchnad a'r pentrefi bach a leolir bob ychydig filltiroedd yn agos at y brif afon fel arfer;

- Mae'r aneddiadau hyn yn ymdoddi i'w cefndir gan ffurfio grwpiau bach clos o adeiladau gydag eglwys neu gastell amlwg.

5.2.2 Lleolir Tregaron ar gyrion ardal gymeriad ucheldir Ceredigion a gydnabyddir yn y *Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru* Cadw, CCGC ac ICOMOS fel un o dim ond 36 o dirweddau 'eithriadol' a nodwyd yng Nghymru.

6. DATBLYGIAD HANESYDDOL

6.1 Cyn-hanesyddol

6.1.1 Mae arteffactau archeolegol, megis bwyeill cerrig, fflintiau wedi'u gweithio ac yn y blaen, yn awgrymu y bu gweithgarwch dynol yn yr ardal o ddiwedd y cyfnod Neolithig ymlaen o leiaf. Mae nifer o safleoedd cynhanesyddol sydd wedi'u cadw'n dda yn yr ardal, megis y bryngaerau o'r Oes Haearn yn Sunnyhill, Castell Flemish a Chastell Rhyfell. Credir yn draddodiadol fod siâp crwn y fynwent yn dynodi bod arwyddocâd crefyddol cynnar, ac o bosibl cynhanesyddol, i'r safle cyn i gymunedau Cristnogol ddod i fyw yma yn ddiweddarach. Awgrymwyd mai beddrod o'r Oes Efydd yw'r twmpath yr adeiladwyd yr eglwys arno. Mae tystiolaeth baleoe-amgylcheddol yn awgrymu bod y gweithgarwch amaethyddol cynharaf yn yr ardal yn dyddio o tua 400CC.



Ffig. 10 Mae'r eglwys wedi'i hadeiladu ar ben twmpath amlwg y mae ei wreiddiau a'i bwrpas wedi bod yn destun dadl ysgolheigaid

6.2 Rhufeinig

- 6.2.1 Prin yw'r dystiolaeth o unrhyw feddiannaeth na dylanwad Rhufeinig uniongyrchol ar y boblogaeth frodorol yn Nhregaron, er bod y gaer filwrol a'r *vicus* Rufeinig dim ond 3 milltir i'r de yn Llanio.

6.3 Yr Oesoedd Canol

- 6.3.1 Mae cerrig arysgrifedig Cristnogol cynnar a ddarganfuwyd o fewn adeiladwaith Eglwys Sant Caron yn awgrymu bod eglwys ar y safle hwn mor gynnar â'r 6ed ganrif.
- 6.3.2 Dywedir i Dewi Sant, nawddsant Cymru, annerch cyfarfod synod eglwysig pwysig yn Llanddewi Brefi gerllaw tua 545 OC, ac mae'n debygol os oedd eglwys gynnar yn Nhregaron y byddai'r gymuned wedi bod yr un mor barod i dderbyn syniadau Cristnogol newydd.
- 6.3.3 Ychydig y tu allan i'r dref mae Ffynnon Garon a'r gred oedd bod nodweddion iachau i'r dŵr. Mae'n bosibl y bu'n ganolbwynt i arfer defodol cyn-Gristnogol oedd i'w fabwysiadu'n ddiweddarach gan Gristnogion fel ffynnon sanctaidd mewn ymgais i gynnwys safleoedd a chredoau paganaidd mewn arferion Cristnogol.
- 6.3.4 Dywed hanesydd lleol, Daniel Davies, i eglwys gael ei chodi ar y safle presennol yn y blynyddoedd 1017 i 1019, ond nid oes dystiolaeth arall i gefnogi'r dyddiad hwn. Fodd bynnag, mae'n ymddangos yn sicr bod presenoldeb Cristnogol cryf ac efallai eglwys wedi'i sefydlu yn Nhregaron cyn goresgyniad y Normaniaid.
- 6.3.5 Roedd Tregaron yn anarferol gan iddi fwynhau cyfnod heddychlon a sefydlog yn ystod cyfnod y Normaniaid, mwy na thebyg oherwydd absenoldeb castell strategol, ac fe barhaodd i ddatblygu a ffynnu.
- 6.3.6 Roedd yn amlwg yn ganolfan leol bwysig erbyn 1292 pan roddodd Edward I Siarter Frenhinol yn caniatáu cynnal marchnad wythnosol a ffair flynyddol yn Nhregaron. Roedd Ffair Garon yn ffair dridiau ar un adeg a gynhaliwyd ar 15, 16 ac 17 Mawrth, ac roedd yn ddigwyddiad cymdeithasol a masnachu mawr. Tua'r un pryd rhoddodd Edward arglwyddiaeth Caron i Geoffrey Clement a pharhaodd ym mherchenogaeth y teulu Clement tan ganol y 15fed ganrif.

6.4 Ôl-ganoloesol

- 6.4.1 Roedd Tregaron yn brif dref Cantref Pennarth erbyn hanner cyntaf yr 16eg ganrif. Felly mae'n debygol bod y dref nid yn unig yn ganolfan fasnachol ond yn ganolfan weinyddol hefyd gyda llysoedd rhydd yn gweinyddu cyfiawnder. Roedd y ffair flynyddol Ffair Garon yn un o ffeiriau mwyaf Cymru ar y pryd.

- 6.4.2 Yn ystod yr 16eg ganrif ganed y ffigur chwedlonol Twm Siôn Cati – 'Robin Hood Cymru' – yn Nhregaron. Fel pob chwedl boblogaidd gall fod mwy na gronyn o wirionedd i hanes ei orchestion, ond yr hyn sy'n debygol yw ei gysylltiad â'r dref, peryglon teithio yn y cyfnod hwn, a'r gwahaniaeth mewn statws rhwng y cyfoethog a'r tlawd. Dywedir iddo fod yn dirfeddiannwr cyfoethog yn ddiweddarach yn ei fywyd ac yn Ynad Heddwch a'i fod yn byw mewn tŷ crand ger Tregaron.
- 6.4.3 Cafodd twf Anghydfurfiaeth yn yr 17eg ganrif ei groesawu gan y gymuned yn Nhregaron a'r cymunedau amaethyddol o'i chwmpas, er bod rhaid iddynt gwrdd yn gyfrinachol tan Ddeddf Goddefgarwch 1689 oedd yn caniatáu i Anghydfurfwyr addoli'n gyhoeddus, defnyddio adeiladau a fodolai eisoes ac adeiladu eu haddoldai eu hunain. Erbyn y 18fed ganrif roedd symudiad Anghydfurfiol sylweddol yn y dref ac adeiladwyd Capel Bwlchgwynt gyntaf yn 1774.



Ffig. 11 Sefydlwyd Capel Bwlchgwynt yn 1774 er i'r capel presennol gael ei adeiladu yn 1833 a'i newid yn 1865 ac ar ddiwedd y 19eg ganrif

- 6.4.4 Mae'r ffynonellau dogfennol cyntaf y gwyddys amdanynt ar gyfer y dref yn dyddio o'r 17eg ganrif ac yn rhoi cipolwg i ni i'r cyfnod hwn o aflonyddwch a gweithgarwch anarferol. Yn ystod y Rhyfel Cartref dywedir bod Tregaron wedi'i chwalu gan y Cyrnol Gerard ar ei daith o Sir Drefaldwyn i Hwlfordd. Serch hynny, llwyddodd Tregaron i barhau i ddatblygu a ffynnu a thyfodd y diwydiant gwlan i fod yn un o brif ddiwydiannau'r ardal yn y 18fed ganrif, gyda'r

hosanwaith a'r wlanen wedi'i gwehyddu gan ferched Tregaron yn ennill enw da am ei hansawdd.

- 6.4.5 Mae cofnodion o'r cyfnod hwn yn awgrymu mai tref gnewyllol fach o tua 50 o dai oedd yma, er ei bod yn debygol y bu rhywfaint o ehangu trefol ychwanegol yn ail hanner y ganrif. Nodir bod y sgwâr o flaen Gwesty'r Talbot yn gartref i'r farchnad wythnosol, tra bod ffair flynyddol Ffair Garon, ffeiriau llogi, a ffeiriau defaid yn cael eu cynnal ar gaeau ar gyrion y dref.
- 6.4.6 Roedd Tregaron yn dref arwyddocaol o bwysigrwydd economaidd erbyn y 19eg ganrif ac i gydnabod hyn agorwyd 'Banc Aberystwyth a Thregaron' yma yn 1810. Mae ei bapurau banc 'dafad ddu', sy'n enwog am eu cynrychiolaeth o'u gwerth gan nifer y defaid, hyrddod neu wŷn, yn arwyddion o economi leol lewyrchus yn seiliedig ar wllân, porthmyn, amaethyddiaeth, a busnesau ategol megis gofaint a thafarndai.



Ffig. 12 Dywedir bod Tŷ Trefelin, Adeilad Rhestredig Gradd II o'r 18fed ganrif, yn dafarn yn y 19eg ganrif

- 6.4.7 Mae nifer o gyfeirlyfrau hanesyddol yn dangos trawsnewid cymdeithasol ac economaidd Tregaron yn y 19eg ganrif. Mae Samuel Lewis yn cofnodi tref o 655 o drigolion yn 1833, ac mae'n amlwg bod angen mwy na'r 50 o dai a gofnodwyd dim ond 100 mlynedd ynghynt. Cofnodir chwe thafarn yn 1835 ynghyd ag ystod eang o greffttau, megis gof, cyfrwywr, cigydd, melinydd, fferyllydd a seiri coed – cyfanswm o 27 o fasnachwyr. Mae'r enwau a gofnodwyd yn dynodi cymuned glos o deuluoedd estynedig.

6.4.8 Erbyn 1844 roedd tua 800 o drigolion a 64 o fasnachwyr, ac erbyn 1851 roedd tair ffatri wlân yn cyflogi 176 o wewyr a 63 o deilwriaid. Roedd Tregaron yn ffynnu erbyn y 1860au a dyfodiad y rheilffordd, gan ddod â manteision ac anfanteision i'r dref, ond roedd y gwaith adeiladu wedi parhau ac roedd maint y dref yn dal i gynyddu. Yn wir, dyblodd maint y dref fwy neu lai rhwng 1840 a 1890.

6.5 20fed Ganrif a'r Cyfnod Modern

6.5.1 Yn yr 20fed ganrif daeth rhai o economïau traddodiadol y dref i ben gyda'r rheilffordd yn cymryd lle'r diwydiant porthmyn a dirywiad y diwydiant gwlân. Roedd pob un o'r pum melin yn Nhregaron wedi cau erbyn 1929. Fodd bynnag, roedd y farchnad a'r ffeiriau yn ffynnu, ac roedd pwysigrwydd Tregaron fel tref farchnad amaethyddol a chanolfan weinyddol wedi parhau.

6.5.2 Yng nghanol / ar ddiwedd yr 20fed ganrif gwelwyd peth ehangu ar gyrion y dref, gan gynnwys stadau tai a stadau diwydiannol yn enwedig i'r gogledd o'r dref.


6.5.3 Mae dau gynllun gwella wedi cael eu rhoi ar waith yn y dref: Cynllun Treftadaeth Treflun rhwng 2004 a 2008 a Phartneriaeth Cynllun Treftadaeth Wledig yr Ucheldir rhwng 2008 a 2011.

6.6 Mapio Hanesyddol

6.6.1 Cynhyrchodd Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed fap damcaniaethol o stent posibl yr anheddiad canoloesol yn Nhregaron yn y 14eg ganrif. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys safle'r felin ganoloesol a'r diwydiant cysylltiedig ym Mhendre, felly mae'n bosibl bod yr anheddiad yn fwy na'r hyn a ddangosir yma.

**Ffig. 13 Map damcaniaethol
Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed o
Dregaron tua 1320**

([https://
www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/
discovery/projects/tregaron/](https://www.dyfedarchaeology.org.uk/wp/discovery/projects/tregaron/))




- 6.6.2 Un o'r mapiau cynharaf sy'n dangos Tregaron yw map Saxton o Aberteifi yn 1610. Dangosir Tregaron fel anheddiad sylweddol, yn enwedig o'i gymharu ag aneddiadau eraill yn yr ardal. Efallai fod hyn yn arwydd o'i statws economaidd a chymdeithasol yn hytrach na maint gwirioneddol yr anheddiad y pryd hynny.

Ffig. 14 Manylion o fap Saxton 1610



- 6.6.3 Mae Map Cary o Sir Aberteifi 1794 ar raddfa fawr hefyd ond yn dangos rhywfaint o glystyru diddorol o adeiladau yng nghanol y dref hanesyddol ac yn rhoi syniad da i ni o stent a chynllun y dref yn y 18fed ganrif.



Ffig. 15 Manylion o fap Cary o Sir Aberteifi 1794

6.6.4 Mae'r rhan fwyaf o fapio tref hanesyddol gydag unrhyw fanylion defnyddiol yn dechrau gyda Mapiau Degwm y 1840au fel arfer. Fodd bynnag, yn Nhregaron rydym yn ffodus bod gennym ddarluniau gwreiddiol y syrfëwr o argraffiad cyntaf yr Arolwg Ordnans yn dyddio o'r 1820au, ac mae'n ddiddorol cymharu'r ddau.



Ffig. 16 Manylion o ddarluniau gwreiddiol syrfëwr yr Arolwg Ordnans 1820-21




Ffig. 17 Manylion o Fap Degwm y 1840au

6.6.5 Erbyn diwedd y 19eg ganrif roedd Tregaron wedi ehangu'n sylweddol. Dangosir hyn yn fanwl ar yr argraffiad cyntaf o fap yr Arolwg Ordnans a gyhoeddwyd yn 1889.



Ffig. 18 Argraffiad cyntaf o fap yr Arolwg Ordnans 1889

6.6.6 Mae Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed (enw marchnata Cambria Archaeology) hefyd wedi cynhyrchu map defnyddiol yn dangos datblygiad diweddarach y dref yn dilyn cynhyrchu map yr Arolwg Ordnans yn 1889.



Ffig. 19 Map Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed yn dangos ehangiad Tregaron ar ôl 1889 Cambria Archaeology 2007

7. DADANSODDIAD GOFODOL A CHYMERIAD PENSAERNÏOL

7.1 Ardaloedd Cymeriad – Cyflwyniad

7.1.1 Er ei bod yn gymharol fach o ran maint gellir rhannu Tregaron yn ardaloedd cymeriad gwahanol; disgrifir pob un ohonynt yn fanwl isod ac fe'i dangosir ar y map drosodd. Mae'r ardaloedd cymeriad hyn wedi'u nodi trwy ddadansoddiad o ddatblygiad hanesyddol y dref ynghyd ag asesiad o'i chymeriad a'i golwg presennol:

- Canol y Dref Hanesyddol a Phendre
- Doldre (Dol-dre)
- Ehangiad Ôl-ganoloesol Diweddarach

7.2 Canol y Dref Hanesyddol a Phendre

7.2.1 Mae'r ardal hon yn cynnwys craidd canoloesol y dref a dyfodd o amgylch yr eglwys a'r anheddiad canoloesol ym Mhendre a dyfodd ger y felin ganoloesol. Mae'n cynnwys y rhan fwyaf o stent y dref cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

7.2.2 Ymddengys mai'r unig adeiledd canoloesol y gwyddys amdano sy'n weddill yw tŵr yr eglwys, ac er bod Gwesty'r Talbot, yn gymwys efallai, yn honni ei fod yn tarddu o'r 13eg ganrif nid oes cadarnhad gweladwy i brofi hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes posibilrwydd bod gweddillion archeolegol o dan y ddaear o'r dref ganoloesol.


7.2.3 Y nodweddion amlycaf yn yr ardal hon yw Eglwys Sant Caron, y sgwâr a man croesi'r afon.

7.2.4 Mae olion yr eglwys ganoloesol wedi'u hymgorffori yn y strwythur sylweddol a welir heddiw o fewn ei mynwent gron unigryw, sy'n awgrymu ei bod yn dyddio o'r cyfnod cyn-Gristnogol. Mae'r eglwys wedi'i chodi ar dwmpath sydd wedi'i amgylchynu gan goed yw aeddfed a llawer o feddrodau cist sylweddol. Mae'r eglwys yn Adeilad Rhestredig Gradd II gyda thŵr o'r 14eg ganrif, tra bod y gweddill wedi'i ailadeiladu'n sylweddol ar ddechrau'r 1800au ac eto yn 1878-9 gan Archibald Ritchie o Gaer.

7.2.5 Mae'r ffryntiadau ar ochr ddwyreiniol yr afon, i'r gogledd/gogledd-ddwyrain o'r eglwys, yn dystiolaeth bod yr eiddo gwreiddiol a fodolai yno ar un adeg yn y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif wedi cael ei ailadeiladu'n ddiweddarach, ac mae'n dystiolaeth o dwf y dref yng nghanol y cyfnod Fictoraidd a welodd adeiladau newydd a choethach yn cymryd lle'r gweithdai a'r anheddau cynharach.

7.2.6 Er bod y tai canoloesol wedi'u haddasu a'u hailadeiladu, mae posibilrwydd y gallai rhywfaint o'r adeiladwaith canoloesol fod wedi goroesi o fewn yr adeiladau hyn. Mae'n debyg nad yw cynllun y lleiniau yn yr ardal hon wedi newid ers y cyfnod canoloesol.

Ffig. 20 Ardal oedd Cymeriad Tregaron




Cyngor Sir Ceredigion
Ceredigion County Council
 Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
 Ffôn/Tel. 01545 570881

Tregaron

- Allwedd / Key**
- Ardal Gadwraeth**
 - Canol y Dref**
 - Doldre**
 - Ôl-ganoloesol**
- Ardaloedd Cymeriad Tregaron**

Craddfa / Scale: 1:3,062
Aggraffwyd ar / Printed on: 2024-04-15

© Herwast y Goron a hysbais cronfa ddiadau 2024 Arwng. Cofrestrwyd 10/03/19
 © Herwast y Goron a hysbais cronfa ddiadau 2024 Arwng. Cofrestrwyd 10/03/19
 © Herwast y Goron a hysbais cronfa ddiadau 2024 Arwng. Cofrestrwyd 10/03/19
 © Local Government Information Unit (LGIU) 2019. All rights reserved. No part of this publication may be reproduced, stored in a retrieval system or transmitted in any form or by any means, electronic, mechanical, photocopying, recording or otherwise, without the prior written permission of the LGIU.
 © Neft Pŵerffectiwes, Welsh Government 2019, 2013. Llywodraeth Cymru 2009, 2013



- 7.2.7 Y sgwâr yw safle'r hen farchnad ganoloesol ond heddiw fe'i nodweddir gan ei phensaernïaeth Neo-Sioraidd a chefnlen Gwesty'r Talbot. Mae cerflun mawr o Syr Henry Richard hefyd yn dominyddu'r gofod hwn yn ogystal â'r lleoedd parcio o fewn y sgwâr ac ar y stryd ger y gyffordd. Mae cerflun pren llai o Twm Siôn Cati hefyd wedi cael ei ychwanegu o flaen Canolfan Rhiannon. Mae ciosg ffôn coch Rhestredig Gradd II i'w weld o flaen y Neuadd Goffa. Mae gan bob adeilad gymeriad pensaernïol unigol ond yn cyfrannu at olwg cyffredinol canol tref Neo-Sioraidd deniadol.
- 7.2.8 Mae gan ardal Pendre gymeriad llai coeth, sy'n debycach i fythynnod pentref ar raddfa lai na'r ardal o amgylch y sgwâr. Dyma safle'r diwydiant canoloesol gan gynnwys y felin ac mae'n debygol ei fod wedi datblygu o'r cyfnod hwn. Rhwng y rhesi byr o dai teras mae adeiladau unigol gyda chymeriad gwledig. Mae cerrig diferu ar rai simneiau yn dangos bod gan yr adeiladau doeau gwellt ar un adeg. Mae cynllun yr adeilad yn dilyn llinellau'r ffordd a'r lonydd yn gyffredinol gydag ychydig o erddi blaen ac adeiladau sy'n wynebu'r stryd. Mae ambell eiddo wedi cael ei adeiladu ar ongl od yn erbyn y graen cyffredinol, a gall y rhain fod yn arwydd o safleoedd adeiladau hŷn y pentref canoloesol. Mae'n debygol iawn bod y cynllun yn ganoloesol ac mae rhai o dai hŷn y dref wedi'u lleoli yma.



Ffig. 21 Mae cymeriad pentrefol i ardal Pendre gyda rhai eiddo hŷn ar ongl i'r graen cyffredinol



Ffig. 22 Gall cerrig diferu ar rai simneiau fod yn arwydd o wreiddiau cynharach rhai o'r eiddo ac mae'n bosib bod ganddynt doeau gwelt yn wreiddiol

7.2.9 Mae ardal fach i'r gorllewin o'r afon wedi'i chynnwys yn yr ardal gymeriad hon ac fe'i dangosir fel ardal wedi'i datblygu erbyn y 18fed ganrif, ac mae'n debygol bod ganddi wreiddiau canoloesol cynharach. Roedd yn fan cyfarfod pwysig ar gyfer ffyrdd yn mynd i'r gogledd, de, dwyrain a gorllewin. Mae'r ardal hon yn cynnwys y bont a pharhad y bensaernïaeth Neo-Sioraidd gyda'r Llew Coch ac adeiladau ger y groesffordd (Sgwâr Fach) a rhai bythynnod hŷn yn mynd i fyny'r bryn i'r gorllewin. Mae hen Fanc Natwest (Adeilad Rhestredig Gradd II) yn enghraifft dda o adeilad a godwyd rhwng y Rhyfeloedd a'r adfywiad yn y defnydd o'r ffrâm bren. Trefelin, sydd hefyd yn Adeilad Rhestredig Gradd II, yw'r unig dŷ cyfan o'r 18fed ganrif sydd wedi goroesi yn y dref.



Ffig. 23 Yr ardal ychydig i'r gorllewin o fan croesi'r afon. Mae'n bosibl bod gan rai o'r tai ar y chwith wreiddiau cynharach er gwaethaf newidiadau diweddarach

7.2.10 Mae effaith y maes parcio cyhoeddus mawr ar leoliad yr ardal gadwraeth wedi ei gwella'n fawr trwy addasu'r adeilad cerrig i'w fynedfa yn y gorllewin a'i floc toiledau. Mae ychydig o ddefnydd o dirlunio caled mwy traddodiadol wedi gwella ei olwg hefyd.

7.2.11 Mae rhai o nodweddion allweddol yr ardal hon yn cynnwys:

- Pensaerniaeth Neo-Sioraidd
- Eglwys blwyf Sant Caron, ei thwmpath a'i mynwent
- Man agored y sgwâr gyda nodweddion allweddol megis y cerflun, ciosg ffôn, dodrefn stryd a chafnau plannu da
- Gwesty'r Talbot
- Adeiladau sefydliadol a masnachol amrywiol megis y Neuadd Goffa, hen fanciau, yr eglwys, cyn swyddfeydd y Cyngor, siopau a thafarndai
- Goroesiad nodweddion a deunyddiau pensaernïol megis ffenestri, drysau, architrafau, simneiau (rhai â cherrig diferu), conglfeini, mowldiau diferu, mynedfeydd ffordd coetsis, blaenau siopau traddodiadol, waliau terfyn cerrig, toeau llechi naturiol (llechi Cymreig yn aml), adeiladau cerrig rwbel, manylion brics cyferbyniol, ac ati
- Adeiladau cerrig rwbel, rhai â rendr lliwgar wedi'i baentio, eraill yn noeth gyda
- manylion brics cyferbyniol
- Bythynnod bach traddodiadol mewn terasau byr sy'n nodweddiadol o arddulliau pensaernïol a chyfnodau datblygu amrywiol
- Adeiladau hŷn unigol rhwng y bythynnod gyda nodweddion a deunyddiau traddodiadol a chymeriad gwledig
- Ychydig o fannau gwyrdd agored bach a gerddi preifat sy'n weladwy i'r cyhoedd
- Cynllun stryd a lleiniau canoloesol
- Potensial archeolegol uchel ar gyfer olion canoloesol o dan yr wyneb ac o fewn adeiladau presennol
- Llwybrau ac arwynebau coblog
- Peth defnydd sensitif o ddeunyddiau tirlunio caled
- Maes parcio cyhoeddus
- Adeiladu ar raddfa fach ym Mhendre gydag adeiladau mwy a mwy sefydliadol ger y ddwy sgwâr ac ar hyd y prif ffyrdd
- Prif ffordd y porthmyn ar draws y mynyddoedd yn mynd trwy'r ardal hon
- Man gwyrdd agored i'r gogledd a'r gorllewin o Bendre wedi'i amgáu gan yr afon i'r gogledd yn helpu i greu cymeriad gwledig yn yr ardal hon
- Dau bwmp dŵr hanesyddol wedi goroesi yn ardal Pendre

7.2.12 Wrth gwrs, mae rhai agweddau negyddol i'r ardal hon megis disodli ffenestri, drysau a blaenau siopau gwreiddiol gyda rhai modern, gwael ar adegau gan gynnwys UPVC. Ychydig o rinweddau pensaernïol sydd i'r garej wrth ymyl y bont ac mae'n effeithio'n negyddol ar lleoliad yr eglwys. Mae'r bont yn adeiladwaith modern sydd wedi'i ddylunio'n wael a fyddai'n elwa o ddewis arall sensitif o ddeunyddiau traddodiadol. Mae'n ymddangos bod ardal Pendre a'r ardal i'r gorllewin o'r afon wedi colli mwy o nodweddion pensaernïol traddodiadol, megis ffenestri a drysau, a gellid gwella'r cymeriad hanesyddol yn fawr trwy eu disodli mewn modd sensitif. Mae ardal i'r de o'r maes parcio, y tu ôl i Westy'r Talbot, i'w gweld yn dir gwag segur wedi'i amgylchynu'n rhannol gan hen ffensys Heras ac yn lle sy'n denu tipio anghyfreithlon erbyn hyn. Mae y tu allan i ffin bresennol yr ardal gadwraeth ond yn cael effaith negyddol ar ei lleoliad.

7.3 Doldre (neu Dol-dre)

7.3.1 Ardal o ddatblygu canol y 19eg ganrif yw Doldre yn bennaf. Roedd camlaseiddio'r afon yn rhannol yn 1840 wedi cynnig modd datblygu'r gorlifdir a safle'r hen gomin. Roedd twf a ffyniant y dref yn y cyfnod hwn yn enwedig mewn perthynas â'r diwydiant gwlân wedi arwain at yr angen am dai ychwanegol. Dywedir mai tai unnos oedd llawer o'r eiddo yn yr ardal hon yn wreiddiol, sef os gallai rhywun godi tŷ mewn un noson a chael mwg yn dod allan o'r simnai erbyn y bore gallai hawlio rhydd-ddaliad y tir. Tyweirch oedd y tai dros nos hyn ar y cyfan a chawsant eu disodli'n raddol gan gerrig. Mae hapgynllun yr ardal hon gyda'i lonydd troellog yn nodweddiadol o'r math hwn o ddatblygiad ac mae'n debygol bod ffiniau'r lleiniau gwreiddiol yn parhau.



Ffigurau 24 a 25 Tŷ unnos o bosib gyda cherrig a llechi yn lle'r tywyrch, cob a gwellt gwreiddiol

7.3.2 Mae rhai tai cerrig gwreiddiol i'w gweld o hyd yn yr ardal hon a gallai'r nifer helaeth o'r hyn a fyddai heddiw yn cael ei ystyried yn ysguboriau neu siediau cerrig bach fod yn dystiolaeth ychwanegol. Mae cerrig diferu ar simneiau rhai tai yn dangos mai to gwellt oeddent yn

wreiddiol. Ceir ardaloedd o balmentydd coblog gwreiddiol hefyd gyda lonydd bach neu lwybrau rhwng y tai.

7.3.3 Ar ochr orllewinol yr ardal hon, wrth i'r afon fynd yn ddyfnach, roedd modd adeiladu eiddo hyd at lan yr afon.

7.3.4 Mae rhai o nodweddion allweddol yr ardal hon yn cynnwys:

- Ardal gymeriad sy'n nodedig yn weledol
- Lonydd troellog cul bach
- Bythynnod cerrig gwreiddiol, unllawr yn aml (simneiau cerrig diferu ar rai ohonynt)
- Cynlluniau lleiniau gwreiddiol
- Ysguboriau cerrig bach, siediau (neu dŷ unnos yn wreiddiol)?
- Datblygiad hyd at lan yr afon
- Llwybrau ac arwynebau coblog
- Waliau terfyn cerrig
- Cymeriad nodweddiadol canol / diwedd y 19eg ganrif
- Bythynnod cerrig a gwyngalchog
- Adeiladau ar raddfa fach gyda chynllun dwysedd cymharol uchel
- Rhesi byr o dai teras a rhai eiddo unigol



Ffig. 26 Mae lonydd coblog gwreiddiol wedi goroesi mewn rhai mannau yn ardal Doldre

7.3.5 Wrth gwrs, mae rhai agweddau negyddol yn yr ardal hon megis ambell i enghraifft o ddisodli ffenestri, drysau a blaen siopau gwreiddiol gyda rhai modern gwael. Mae nifer o safleoedd anniben hefyd, yn enwedig lle mae sbwriel wedi cael ei adael, y gellid ei wella'n gymharol hawdd trwy drafod â pherchnogion. Ceir rhai enghreifftiau o estyniadau modern sydd wedi'u dylunio'n wael a diffyg cynnal a chadw cyffredinol yn achos rhai eiddo. Gall diffyg lleoedd parcio a lonydd cul achosi problemau traffig o bryd i'w gilydd. Gan mai'r ffordd orau o grwydro'r ardal yw ar droed, gallai cyfyngiad ar gerbydau dibreswyl wella mynediad i'r rhai sy'n byw yn yr ardal. Mae i'w gweld yn ardal breifat iawn ac ychydig o ymwelwyr sy'n debygol o fynd yno, fodd bynnag, gellid dehongli ei hanes diddorol a'i golwg deniadol yn well ar gyfer twristiaeth y dref. Mae rhai o'r ysguboriau cerrig bach (tŷ unnos?) mewn cyflwr gwael. Mae posibilrwydd y gallant fod yn nodweddion hanesyddol pwysig iawn o'r ardal hon.

7.4 Ehangiad Ôl-ganoloesol Diweddarach

- 7.4.1 Nodweddir cyrion allanol y dref gan ehangiad ôl-ganoloesol diweddarach. Mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o ran orllewinol Tregaron, yr ardaloedd i'r de a'r dwyrain o Doldre, rhan ddwyreiniol bellaf Pendre, a'r ardal i'r gogledd-orllewin o ganol y dref.
- 7.4.2 Ehangiad tref nodweddiadol diwedd Oes Fictoria a'r 20fed ganrif yw hwn gyda chraidd canoloesol lle oedd tir ar gael ar y cyrion yn unig. Roedd dyfodiad y rheilffordd hefyd wedi annog anheddu yn rhannau gogleddol a gorllewinol y dref. Dyblodd maint Tregaron fwy neu lai yn yr hanner can mlynedd rhwng 1840 a 1890. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd nifer o fythynnod ac adeiladau cynharach eu dymchwel a'u hailadeiladu, a chafodd ardaloedd newydd eu datblygu.
- 7.4.3 Eto, yn nodweddiadol, mae llawer o'r ehangu hwn wedi'i ddominyddu gan adeiladau gwasanaethau swyddogaethol a masnachol megis ysgolion, capeli, tloty / ysbyty, gorsaf yr heddlu, gwestai a siopau parlwr ar hyd Stryd y Capel. Mae anheddau mwy o ddiwedd Oes Fictoria a dechrau / canol yr 20fed ganrif hefyd i'w gweld yn yr ardaloedd hyn. Mae stadau tai diweddarach hefyd yn dominyddu'r ardaloedd allanol, yn enwedig i'r gorllewin a'r gogledd.
- 7.4.4 Ar un adeg cynhaliwyd y ffair flynyddol, Ffair Garon ar gaeau i'r gorllewin o'r afon er bod y safle ei hun wedi cael ei adeiladu drosodd erbyn hyn.
- 7.4.5 Mae'r ardal ogleddol o amgylch yr hen orsaf reilffordd wedi cael ei datblygu i fod yn ardal ddiwydiannol yn bennaf gyda thai diwedd Oes Fictoria yn ffurfio lleoliad yr ardal gadwraeth yma. Dim ond eiddo preswyl ar hyd Heol yr Orsaf sydd wedi'u cynnwys o fewn ffin yr ardal gadwraeth yn bennaf.



Ffig. 27 Nodwedd Heol yr Orsaf gan ddatblygu preswyl diwedd Oes Fictoria

7.4.6 Mae ychydig o fyngalos o ganol yr 20fed ganrif â golwg penodol yn yr ardaloedd allanol hyn gyda manylion pensaernïol da. Mae adeiladau eraill yn cynnwys nifer fawr o hen ffermdai ar wahân, gydag ysguboriau cerrig bach yn aml a therasau byr o dai o ddiwedd Oes Fictoria. Mae adeiladau nodedig eraill yn cynnwys y ddwy hen ysgol, y capeli (un yn adfeilion erbyn hyn) a phâr o anheddau unllawr tun yn wreiddiol a adeiladwyd ar ôl y rhyfel gyda manylion pren diddorol. Yn anffodus mae un o'r rhain wedi cael ei newid y tu hwnt i bob adnabyddiaeth ac mae'r llall yn wag ac mewn cyflwr gwael. Caeodd yr hen dloty i'r de o'r dref (adeiladwyd yn 1876) yn 1914 a chafodd ei droi'n sanatoriwm tiwbercwlosis ac yna ysbyty bach yn ddiweddarach yn y 1960au. Cafodd hwn ei estyn gydag adain ychwanegol ac fe'i hagogwyd yn 1982 fel yr ysbyty presennol.

7.4.7 Nodwedd safle'r ardaloedd hyn gan gaeau o dir pori agored â gwrychoedd yn bennaf. Yn yr ardal i'r gogledd mae parth diwydiannol a'r farchnad wartheg ac i'r de-orllewin mae ardal arall o ddatblygiad hirgul ar hyd Ffordd Llambled sy'n dyddio o ganol / diwedd yr 20fed ganrif.

7.4.8 Mae rhai o nodweddion allweddol yr ardal hon yn cynnwys:

- Pensaernïaeth a manylion diwedd Oes Fictoria
- Ffermdai cerrig ar wahân
- Capeli ac ysgolion

- Datblygu ar raddfa fach o ganol yr 20fed ganrif a nodweddir gan adeiladau unigol a phâr nodedig o bensaernïaeth ddiddorol o ansawdd uchel
- Datblygiad ôl-ganoloesol ar hyd y ffyrdd prifwythiennol
- Datblygiad sy'n gysylltiedig â'r rheilffordd
- Yr hen dloty / ysbyty presennol
- Siopau parlwr ar hyd Stryd y Capel
- Rhywfaint o barhad o arddull Neo-Sioraidd yn troi'n bensaernïaeth a manylion mwy traddodiadol diwedd oes Fictoria
- Datblygu ar gyrion y dref gyda golygfeydd dros dir amaethyddol

7.4.9 Unwaith eto mae rhai nodweddion negyddol yn yr ardaloedd hyn sy'n amharu ar eu cymeriad cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys rhai safleoedd anniben ac adeiladau gwag. Mewn rhai mannau mae ffenestri, drysau a blaenau siopau gwreiddiol wedi cael eu disodli gan adeiladau eraill, modern, gwael. Mae cymeriad cyffredinol rhai adeiladau Fictoraidd diweddarach wedi cael eu newid trwy estyniad amhriodol, colli ac addasu nodweddion pensaernïol a dewis gwael o ddeunyddiau. Mae rhai datblygiadau mewnlenni modern o ansawdd pensaernïol amheus. Nodwyd diffyg cynnal a chadw ar gyfer rhai adeiladau hanesyddol yn yr ardaloedd hyn.

8. ASEDAU HANESYDDOL DYNODEDIG

8.1 Adeiladau Rhestredig

8.1.1 Mae saith Adeilad Rhestredig o fewn yr ardal gadwraeth. Maent i gyd yn Adeiladau Rhestredig Gradd II ac yn cael eu dangos ar y map drosodd.

- Capel Bwlchgwynt – Cadw Cyf.: 18480
- (Hen) Fanc National Westminster – Cadw Cyf.: 18477
- Eglwys Sant Caron – Cadw Cyf.: 9909
- Ciosg Ffôn ger y Neuadd Goffa – Cadw Cyf.: 18479
- Cofeb Henry Richard – Cadw Cyf.: 18476
- Gwesty'r Talbot – Cadw Cyf.: 18478
- Trefelin – Cadw Cyf.: 10691


8.2 Henebion Cofrestredig

8.2.1 Nid oes unrhyw henebion cofrestredig yn yr ardal gadwraeth.

8.3 Asedau Dynodedig Eraill

8.3.1 Nid oes unrhyw ddynodiadau treftadaeth eraill o fewn neu yn lleoliad yr ardal gadwraeth.

Ffig. 28 Asedau Hanesyddol Dynodedig



Cyngor Sir Ceredigion
Ceredigion County Council
 Neuadd Cyngor, Ceredigion, Penmorfa,
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
 Ffôn/Tel. 01545 570881

Tregaron

Allwedd / Key

- ▭ Ardal Gadwraeth
- Adeliadau Rhestredig (CADW)

Graddfa / Scale: 1:3,062
 Agrafrwyd ar / Printed on: 2024-04-15

© Herwraeth y Goron a hanesau cronfa ddiwy 2024. Arweinydd: Ceredigion, 2024. 100024419
 © Herwraeth y Goron a hanesau cronfa ddiwy 2024. Arweinydd: Ceredigion, 2024. 100024419
 © Herwraeth y Goron a hanesau cronfa ddiwy 2024. Arweinydd: Ceredigion, 2024. 100024419
 © Crown Copyright 2019. Ordnance Survey. All rights reserved. 2019. 100024419
 © Newydd Pwllheli, 2019. Llywodraeth Cymru, 2019. 2019.

G N



200 m

100

0

8.4 Adeiladau o Ddiddordeb Lleol

- 8.4.1 Mae dwy lefel o adeiladau o ddiddordeb – y rhai a allai fodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu cynnwys ar restr o adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig lleol (gweler <https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/other-historic-assets/historic-assets-special-local-interest>) a'r rhai sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.
- 8.4.2 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Dylai'r meini prawf ar gyfer dewis asedau gael eu llunio gan yr awdurdod lleol ond gellir eu seilio ar ganllawiau Cadw. Dylai'r dewis hefyd fod yn seiliedig ar gyfranogiad cymunedol. Yna gall awdurdodau cynllunio ddatblygu polisiau i'w diogelu a'u gwella trwy bolisiau Cynllun Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol.
- 8.4.3 Mae adeiladau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad a golwg ardal gadwraeth yn aml yn adeiladau traddodiadol sydd â gwerth hanesyddol, pensaernïaeth neu fanylion o safon. Nid yw'n golygu nad ydynt wedi cael eu newid mewn rhyw ffordd neu nad oes lle i'w gwella, dim ond y byddai eu colli yn effeithio'n negyddol ar gymeriad neu olwg cyffredinol yr ardal ddynodedig. Ni ddylid edrych yn negyddol ar adeiladau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr gan fod cyfleoedd yn aml i wella adeilad neu strwythur neu adfer nodweddion. Gall peidio â'u cynnwys olygu bod sawl elfen o adeilad traddodiadol wedi'u colli neu fod ei gyfanrwydd wedi'i effeithio'n ddifrifol trwy newidiadau diweddarach. Ni ddylai peidio â'u cynnwys, ynddo'i hun, fod yn rheswm dros roi caniatâd i ddymchwel neu dros ganiatáu datblygiad, dyluniad, deunyddiau neu addasiadau o ansawdd gwael.
- 8.4.4 O fewn Ardal Gadwraeth Tregaron mae llawer o adeiladau sydd wedi cadw eu nodweddion pensaernïol gwreiddiol, sydd ag elfennau o ddatblygiad hanesyddol blaenorol wedi'u hymgorffori yn eu gwneuthuriad, neu sy'n cyfrannu at ddeall datblygiad hanesyddol y dref. Mae'r adeiladau hyn yn debygol o gyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg yr ardal gadwraeth.
- 8.4.5 Mae awgrymiadau ar gyfer adeiladau a allai gael eu cynnwys ar 'restr leol' yn cynnwys:
- Unrhyw adeilad arddull Neo-Sioraidd sydd wedi cadw'r mwyafrif o'i nodweddion gwreiddiol
 - Unrhyw un o'r bythynnod cerrig hŷn ym Mhendre, Doldre a chanol y dref hanesyddol sy'n cadw'r mwyafrif o'u nodweddion pensaernïol
 - Yr ysgolion a'r capeli nad ydynt yn rhestredig

- Y beddrodau cist yn y fynwent
- Unrhyw un o'r siopau parlwr yn Stryd y Capel sydd wedi cadw'r mwyafrif o'u nodweddion gwreiddiol
- Yr ysguboriau cerrig bach (a thŷ unnos o bosibl) o fewn Doldre a mannau eraill
- Adeiladau a nodweddion ar y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol
- Mae'r adeiladau penodol canlynol wedi cael eu nodi hefyd:

Hen Fanc Barclays (Y Banc)

Canolfan Rhiannon

Cross House, Pendre

Y Ganolfan Dreftadaeth

Ysbyty Tregaron (yr hen dloty)

Ty Capel

Hafod, Heol Dewi

Delfan, Pendre?

Dryscol, Pendre?

Plas Bach, Pendre

Yr hen efail

Cist beddrodau hŷn yn y fynwent

Yr hen Ysgol Sirol, Ffordd Llambed

Adeilion yr hen Gapel Methodistiaidd, Heol Dewi

Neuadd Goffa



Ffig. 29 Mae beddrodau cist o ddiddordeb esthetig, pensaernïol, hanesyddol a chymunedol yn aml

9. CYMDEITHASAU HANESYDDOL A THRADDODIADAU

9.1 Lleoedd

- 9.1.1 Yn ôl y traddodiad lleol y twmpath lle saif yr eglwys yw man claddu Sant Caron yn y 3edd ganrif OC.
- 9.1.2 Ffynnon Garon, a gofnodwyd gan Francis Jones (1954) fel ffynnon sanctaidd ger Fferm Glanbrenig, Tregaron, lle roedd y dŵr yn cael ei yfed gyda siwgr adeg y Pasg. Roedd yn arferiad hefyd i gariadon ddod â rhoddion o fara, ei fwyta a'i olchi i lawr â dŵr o'r ffynnon.
- 9.1.3 Ar y 10fed o Orffennaf 1848 daeth "Batty's Menagerie" i Dregaron a bu farw un o'r eliffantod syrcas yn y stabl yn yr Ivy Bush Inn ar ôl yfed dŵr wedi'i halogi â phlwm. Dywedir bod yr eliffant wedi'i gladdu 'y tu ôl i Westy'r Talbot', er na wyddys yr union safle.

9.2 Pobl

- 9.2.1 Yn ôl y sôn roedd Sant Caron yn ŵr o dras isel ond yn ôl Meyrick (1907) "his courage and generous deportment obtained him the sovereignty in Wales: he made war against the Romans, reigned seven years and was buried in Tregarron". Mae ffynonellau eraill yn nodi bod dau awgrym ynghylch hunaniaeth Caron. Mae'n gysylltiedig â naill ai Carausius, cadlywydd milwrol Rhufeinig o'r 3edd ganrif, neu'r dyn sanctaidd o'r 4edd ganrif Sant Ciarán o Saighir yn Iwerddon.
- 9.2.2 Ganed Syr Henry Richard yn Nhregaron yn 1812. Bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr ac yn Aelod Seneddol Cymru rhwng 1868 -1888. Yn 1848 fe'i penodwyd yn Ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch a chafodd ei adnabod yn rhyngwladol fel 'Yr Apostol Heddwch'. Yn 1868 daeth yn Aelod Seneddol dros Ferthyr ac oherwydd ei ddiddordeb mewn materion Cymreig yn y Senedd cafodd y llysenw 'yr Aelod dros Gymru'. Roedd hefyd yn arloeswr amlwg ym myd addysg ac yn 1883 fe oedd Is-lywydd cyntaf Coleg Prifysgol Caerdydd. Roedd yn gefnogwr brwd y mudiad gwrth-gaethwasiaeth hefyd.



Ffig. 30 Cerflun Rhestredig Gradd II o Henry Richard, 'Yr Apostol Heddwch'

9.2.3 Mae Twm Siôn Cati yn ffigur chwedlonol o bosib yn seiliedig ar berson neu bobl go iawn ac mae'n cael ei adnabod fel Robin Hood Cymru. Fe'i ganed yn Nhregaron ac yn dilyn gyrfa amrywiol, lwyddiannus ac anghyfreithlon yn aml, ymgartrefodd mewn 'tŷ crand' yn Nhregaron fel aelod parchus o'r elít lleol.

9.3 Digwyddiadau

9.3.1 Mae'n debyg mai'r digwyddiadau sydd wedi cael eu cynnal hwyaf yn Nhregaron yw'r marchnadoedd da byw wythnosol a gynhelid gynt yn y sgwâr y tu allan i'r Talbot ac sy'n dal i gael eu cynnal, ond bob pythefnos erbyn hyn yn y farchnad wartheg fodern yn ardal ogleddol y dref.

9.3.2 Mae gan y ffair flynyddol, Ffair Garon, hanes hir iawn hefyd, gan dderbyn ei siarter Frenhinol yn 1292 ac mae'n dal i gael ei chynnal heddiw. Ymddengys ei fod yn achlysur arbennig a gafodd ei gynnal dros dri diwrnod ym mis Mawrth, a hon oedd y ffair fwyaf o'i fath yng Nghymru.

9.3.3 Mae gan Dregaron raglen brysur o ddigwyddiadau o hyd – mae'r ffair wledig draddodiadol Ffair Garon yn cael ei chynnal bob mis Mai tra bod Tregaron hefyd yn cynnal Gŵyl Gerdd Tregaron, Carnifal Tregaron, Sioe Tregaron ac Eisteddfod Tregaron, ymhlith eraill.

10. HANESION CUDD

10.1 Potensial Archeolegol

10.1.1 Fel y nodwyd uchod, mae gan Dregaron botensial archeolegol uchel ar gyfer darganfod olion sydd wedi goroesi o'r cyfnod canoloesol. Mae hyn yn cynnwys nodweddion o dan y ddaear a deunyddiau canoloesol mewn adeiladau sy'n sefyll er gwaethaf newidiadau diweddarach.

10.1.2 Mae potensial uchel hefyd ar gyfer darganfod olion o dan y ddaear yn dyddio o'r 18fed ganrif, ac yn wir mae'n bosibl bod rhai o'r adeiladau presennol yn dyddio, yn rhannol o leiaf, o'r cyfnod hwn.

10.1.3 Mae'r stoc adeiladau presennol yn dyddio'n bennaf o'r 19eg ganrif a gellir darllen twf a datblygiad y dref trwy ei harddulliau a'i nodweddion pensaernïol.

10.1.4 Cynhyrchodd Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed Arolwg o Dref Hanesyddol Tregaron gan nodi potensial archeolegol ardaloedd unigol yn fanylach, ac mae'n rhoi cyngor ynghylch parthau cynllunio. Ceir crynodeb ohono ar ei gwefan.

11. BIOAMRYWIAETH

11.1 Seilwaith Gwyrdd

11.1.1 Mae gan Dregaron gyfran eithaf uchel o fannau gwyrdd ac isadeiledd yn y dref, yn bennaf

gerddi preifat, yr ardal ger yr eglwys, y caeau agored ar y cyrion ac i'r gogledd o Bendre, ac ardaloedd bach o fannau gwyrdd o amgylch adeiladau amlwg.

11.2 Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

11.2.1 Mae afon Brenig, fel un o lednentydd afon Teifi, wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Mae'r Brenig yn gartref i ddyfrgwn a chafodd seilwaith ei greu ar gyfer yr anifeiliaid yn ystod prosiect yn 2008. Ar un adeg roedd eogiaid yr Iwerydd i'w cael yn yr afon ond mae eu niferoedd wedi gostwng. Mae brithyllod brown yn gyffredin yn yr afon a gellir dal sbesimenau mwy yn y rhannau culach lle mae'r dŵr yn rhedeg yn ddyfnach, a gellir dod o hyd i llysywod hefyd.

11.2.2 Saif Cors Caron ychydig i'r gogledd o Dregaron ac mae wedi'i ddynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA). Gellir crynhoi'r cymeriad ecolegol a chynefin fel:

- Cyrff dŵr mewndirol (dŵr sefydlog, dŵr rhedegog) (2%)
- Corsydd, mignedd, llystyfiant ymyl dŵr, ffeniau (70%)
- Glaswelltir llaith, glaswelltir Mesoffil (21%)
- Coetir collddail llydanddail (7%)

11.3 Gorchudd Coed

11.3.1 Nid yw data MapDataCymru ar Orchudd Coed Trefol yn cynnwys ardal Tregaron. Yn absenoldeb data o'r fath, mae golygfeydd modern o'r awyr yn rhoi arwydd da o orchudd coed yn yr ardal gadwraeth. Dangosir ardaloedd gweddol gymedrol o orchudd coed yn arbennig yn rhannau deheuol a gogleddol yr ardal ar hyd yr afon. Mae effaith gadarnhaol gerddi preifat hefyd yn cael ei chynrychioli'n dda. Nid oes unrhyw Orchmynion Cadw Coed o fewn yr ardal na'i lleoliad.



Ffig. 31 Mae ardaloedd o orchudd coed yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal gadwraeth a'i lleoliad – hyd yn oed yn y gaeaf

12. DADANSODDIAD CGCB

| | |
|--|---|
| <p style="text-align: center;">CRYFDERAU</p> <p style="text-align: center;">Arwyddocâd hanesyddol</p> <p style="text-align: center;">Pensaerniaeth ôl-ganoloesol o ansawdd da</p> <p style="text-align: center;">Nodweddion ac adeiladau gwerinol wedi goroesi</p> <p style="text-align: center;">Canolfan leol boblogaidd / cyrchfan dwristiaeth fach</p> <p style="text-align: center;">Siopau a chaffis annibynnol o ansawdd da</p> <p style="text-align: center;">Agos at atyniadau twristiaeth (e.e. Mynyddoedd Cambria, Cors Caron ac ati)</p> <p style="text-align: center;">Gorchudd coed da</p> <p style="text-align: center;">Lleoedd parcio yn agos i'r dref</p> <p style="text-align: center;">Cynllun tref ganoloesol / Lonydd cefn cul nodwedd-iadol</p> <p style="text-align: center;">Amrywiaeth o gyfleusterau lleol</p> <p style="text-align: center;">Afon</p> <p style="text-align: center;">Y Gymraeg, diwylliant Cymru a gweithgareddau cymunedol</p> | <p style="text-align: center;">GWENDIDAU</p> <p>Colli nodweddion gwreiddiol adeiladau nad ydynt yn rhestredig er gwaethaf Cyfarwyddyd Erthygl 4</p> <p style="text-align: center;">Rhai blaenau siopau o ansawdd gwael</p> <p style="text-align: center;">Safleoedd anniben</p> <p>Newid nodweddion terfyn traddodiadol a rhoi deunyddiau anhraddodiadol yn eu lle</p> <p style="text-align: center;">Gwaith cynnal a chadw wedi cronni</p> <p style="text-align: center;">Risg o golli arwynebau hanesyddol (coblau)</p> <p style="text-align: center;">Colli banciau</p> <p style="text-align: center;">Eiddo gwag allweddol</p> <p>Diffyg lle yng nghanol y dref ar gyfer ehangu busnesau presennol</p> <p style="text-align: center;">Parcio ar y stryd</p> <p style="text-align: center;">Diffyg ymwybyddiaeth o hanes y dref</p> |
| <p style="text-align: center;">CYFLEOEDD</p> <p style="text-align: center;">Gwella golygfeydd o'r eglwys</p> <p style="text-align: center;">Defnydd, mynediad a golwg glan yr afon</p> <p style="text-align: center;">Gwybodaeth am y dref / marchnata / llwybr</p> <p style="text-align: center;">Cadwraeth / ailddefnyddio ysguboriau cerrig bach ac eiddo gwag</p> <p style="text-align: center;">Cael gwared ar barcio ar y stryd</p> <p style="text-align: center;">Gweithgareddau awyr agored / twristiaeth gynaliadwy</p> <p style="text-align: center;">Potensial archeolegol</p> <p style="text-align: center;">Diogelu neu ddisodli nodweddion pensaernïol gwreiddiol adeiladau nad ydynt yn rhestredig</p> <p style="text-align: center;">Cynyddu ymwybyddiaeth y gymuned ac ymwelwyr o hanes ac arwyddocâd</p> | <p style="text-align: center;">BYGYTHIADAU</p> <p>Datblygiad ac estyniadau newydd anaddas, yn enwedig masnachol/diwydiannol</p> <p>Colli manylion a nodweddion pensaernïol gwreiddiol</p> <p style="text-align: center;">Colli gorchudd coed</p> <p style="text-align: center;">Colli mannau agored i ddatblygiadau</p> <p style="text-align: center;">Colli twristiaeth</p> <p style="text-align: center;">Newid i'r cymeriad gwerinol</p> |

WEDI'I YRRU GAN
**FFYNIANT
— BRO —**

POWERED BY
**LEVELLING
— UP —**



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru



TREGARON

Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

Mehefin 2025

Paratowyd ar gyfer

Cyngor Sir Ceredigion

Ariennir y prosiect hwn gan lywodraeth y DU trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU

The GRIFFITHS HERITAGE CONSULTANCY Ltd

1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Mae'r cynllun rheoli hwn yn rhoi sylw i'r materion a godwyd yn yr arfarniadau ac yn nodi ymatebion priodol sy'n gymesur ag arwyddocâd yr ardal. Mae'r cynllun yn nodi amcanion rheoli realistig, gan ystyried adnoddau a chyfleoedd ariannu a pholisïau ar gyfer gwella.

2. CYFARWYDDIADAU ERTHYGL 4

2.1 Cyflwyniad i Gyfarwyddiadau Erthygl 4

2.1.1 Mynegir diddordeb arbennig ardaloedd cadwraeth yng nghymeriad a golwg yr ardal ac nid mewn adeiladau unigol. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol rheoli newid yn ofalus mewn ardaloedd cadwraeth er mwyn sicrhau bod eu cymeriad a'u golwg yn cael eu diogelu a'u gwella. Er mwyn cyflawni hyn, mae rheolaethau arbennig o ran dymchwel adeiladau a thorri, topio a thocio coed.

2.1.2 Mae rheolaethau cynllunio ychwanegol y gellir eu cymhwyso i ardaloedd cadwraeth er mwyn diogelu'r elfennau hanesyddol a phensaernïol sy'n gwneud yr ardal yn arbennig. Gelwir y rheolaethau arbennig hyn yn Gyfarwyddiadau Erthygl 4. Penderfynir arnynt gan bob awdurdod cynllunio lleol yn dibynnu ar ba elfen arbennig o'r ardal gadwraeth y maent am ei diogelu. Maent yn fwyaf tebygol o effeithio ar berchnogion sydd am wneud newidiadau i du allan eu hadeilad. Gall y rhain gynnwys cladin, newid drysau neu ffenestri, a gosod dysglau lloeren a phaneli solar.

2.1.3 Ni fwriedir i'r rheolaethau hyn atal newid; yn hytrach, maent yn annog datblygiadau sy'n gydnaws â'r ardal neu sy'n gwella ei chymeriad arbennig. Gellid defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i helpu i reoli newidiadau ar raddfa fach na fyddai'n cael fawr o effaith yn unigol, ond gyda'i gilydd gallent effeithio ar olwg neu gymeriad ardal gadwraeth.

2.1.4 Mae Erthyglau 4(1) a 4(2) o Orchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 yn galluogi awdurdodau lleol i wneud cyfarwyddiadau sy'n tynnu'n ôl rhai hawliau datblygu a ganiateir, gan gynnwys rhai mathau o adeiladau neu ardaloedd penodol.

2.1.5 Gellir defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4(1) i dynnu'n ôl hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o dir ac adeiladau ond rhaid i hyn gael ei gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

2.1.6 Mae Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yn gymwys i adeiladau ac adeileddau domestig, ond dim ond i'r rhannau hynny sy'n wynebu priffyrdd, dyfrffyrdd neu fannau agored. Gall awdurdodau lleol eu cadarnhau unwaith y bydd y cyfarwyddyd wedi'i hysbysebu'n lleol ac mae rhybudd wedi'i gyflwyno i drigolion. Yn ogystal, gallai cyfarwyddiadau o'r fath fod yn gymwys hefyd i

ddymchwel y cyfan neu ran o unrhyw giât, ffens, wal neu ddull arall o amgáu a allai fod yn gysylltiedig ag eiddo domestig neu beidio.

2.1.7 Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) yw'r cyfarwyddyd a ddefnyddir amlaf ar gyfer rheoli o fewn ardaloedd cadwraeth. Fe'u cymhwysir yn aml mewn senario 'ffon ac abwyd', lle mae rheolaethau yn cael eu cymhwyso trwy'r system gynllunio a'r defnydd o Gyfarwyddyd ond mae cymhellion yn cael eu cymhwyso trwy system grantiau sy'n berthnasol i newid neu gynnal a chadw nodweddion traddodiadol.

2.1.8 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir ac ati) (Diwygio) (Cymru) 2022 yn cynnwys newid i Gyfarwyddiadau Erthygl 4, ond ar y dyddiad ysgrifennu nid yw hyn wedi dod i rym eto. Mae'r newid hwn yn dileu Cyfarwyddiadau Erthygl 4(2) ac yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud Cyfarwyddiadau heb droi at Weinidogion Llywodraeth Cymru. Felly, bydd dau fath o Gyfarwyddyd a'r ddau yn cael eu cyflwyno o dan Erthygl 4(1) o'r Gorchymyn:

- **Cyfarwyddyd Uniongyrchol** pan fydd hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl ar unwaith ac yna'n cael eu cadarnhau gan yr ACLI yn dilyn ymgynghoriad;
- **Cyfarwyddyd Anuniongyrchol** lle mae hawliau datblygu a ganiateir yn cael eu tynnu'n ôl yn dilyn ymgynghoriad a chadarnhad gan yr ACLI.



Ffig. 32 Bwthyn cerrig yn Nhregaron gyda ffenestri newydd



Ffig. 33 Bwthyn cerrig gyda ffenestri ag arddull traddodiadol

2.2 Tregaron

2.2.1 Mae gan Ardal Gadwraeth Tregaron Gyfarwyddyd Erthygl 4 (2) a gafodd ei weithredu yn 2004/5 ac sy'n cwmpasu'r holl ardal gadwraeth. Mae'n berthnasol i dai annedd ac i ddrychiadau sy'n wynebu priffordd, man agored neu ddyfrffordd, ac mae'n cwmpasu'r

ddrychiadau sy'n wynebu priffordd, man agored neu ddyfrffordd, ac mae'n cwmpasu'r ardaloedd canlynol o ddatblygiadau a ganiateir:

- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth A: Ehangu, gwella neu newid arall i dŷ annedd
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth B: Ehangu tŷ annedd sy'n cynnwys ychwanegiad neu addasiad i'w do
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth D: Codi neu adeiladu porth
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth E: Darparu unrhyw adeilad neu glostir, pwll nofio neu bwl arall, neu gynnal a chadw, gwella neu newid arall i adeilad neu amgaead o'r fath.
- Atodlen 2 Rhan 1, Dosbarth F: Darparu neu amnewid arwyneb caled
- Atodlen 2, Rhan 1, Dosbarth H: Gosod, newid neu amnewid antenna lloeren
- Atodlen 2 Rhan 2, Dosbarth A: Codi, newid, rendro, neu symud waliau, ffensys, neu reiliau terfyn

2.2.2 Er gwaethaf gwneud Cyfarwyddyd erthygl 4(2) mae nifer o enghreifftiau o ffenestri a drysau sydd wedi'u dylunio'n amhriodol yn yr ardal gadwraeth, yn enwedig ar adeiladau nad ydynt yn rhestredig.



Ffig. 34 Wal derfyn gerrig draddodiadol



Ffig. 35 Wyneb Coblog Hanesyddol

2.3 Argymhellion

2.3.1 Sicrhau bod perchnogion, meddianwyr a swyddogion cynllunio yn ymwybodol o'r Erthygl 4(2) bresennol a'r cyfyngiadau ar hawliau datblygu a ganiateir.

2.3.2 Ymrwymo i gymryd camau gorfodi pan fydd angen.

3. ADOLYGIAD FFIN

3.1 Cyflwyniad


3.1.1 Lluniwyd llawer o ffiniau ardaloedd cadwraeth cynnar yn gaeth iawn ac nid oeddent bob amser yn cydnabod cyfraniad cyfnodau datblygu diweddarach i gymeriad lle na gwerth

patrymau lleiniau hanesyddol, er enghraifft. Mae'n bwysig adolygu ffiniau ardaloedd cadwraeth o bryd i'w gilydd ac ystyried lle gallai fod angen gwneud addasiadau. Mewn rhai achosion mae ffiniau tir wedi newid neu mae datblygiadau modern da wedi digwydd.

3.2 Tregaron

- 3.2.1 Nid yw ffin yr ardal gadwraeth yn Nhregaron wedi cael ei hymestyn ers iddi gael ei dynodi gyntaf yn 1989.
- 3.2.2 Mae'r cyfan o ran ganoloesol wreiddiol y dref a'r rhan fwyaf o'r datblygiadau ôl-ganoloesol diweddarach o ansawdd wedi'u cynnwys o fewn y ffin.
- 3.2.3 I'r de yn union o'r ffin bresennol ar hyd Heol Dewi (B4343) mae rhai eiddo preswyl o ddiddordeb treftadaeth:
- Byngalo tun traddodiadol yw Hafod sydd wedi cadw rhai manylion pren traddodiadol diddorol a ffenestri hopran gwreiddiol. Mae'n debyg ei fod yn dyddio o ddechrau'r 20fed ganrif ond mae'n anarferol o ran ei oroesiad. Mae'n debyg bod y tŷ pâr arall Bryn Bedw o'r un adeiladwaith cyn iddo gael ei addasu neu ei ailadeiladu.
 - Mae Brenig View yn eiddo preswyl cerrig traddodiadol o ganol Oes Fictoria (ffermdy o bosib) sydd wedi cadw'r ffenestri gwreiddiol a'r defnydd o ddeunyddiau traddodiadol. Fe'i dangosir ar yr argraffiad cyntaf o fap yr Arolwg Ordnans 1887 fel Brenig View.
 - Mae Poplars yn eiddo preswyl cerrig traddodiadol o ganol Oes Fictoria hefyd (ffermdy o bosib) ac er bod y ffenestri wedi'u newid mae wedi cadw ei faint traddodiadol, simneiau da a lleoliad pwysig ar gyffordd Heol Dewi a'r trac sy'n arwain i'r de-ddwyrain i Fferm Drysgol. Fe'i dangosir ar yr argraffiad cyntaf o fap yr Arolwg Ordnans 1887 fel Poplar.
 - Mae ysbyty presennol Tregaron yn cynnwys rhan o Dloty Undeb gwreiddiol Tregaron a godwyd ar y safle hwn yn 1876 gyda lle i 30 o dlodion. Roedd yn cynnwys dwy res gyfochrog wedi'u gwahanu gan floc cysylltu canolog byr. Mae'r bloc llety yn y cefn wedi cael ei ddymchwel, ond mae'r bloc mynediad yn cael ei ddefnyddio gan yr ysbyty lleol. Ar ôl cau yn 1915 cafodd ei newid i fod yn sanatoriwm o'r enw Ysbyty Brenin Edward VII ar gyfer trin cleifion twbercwlosis. Mae'n ysbyty cymunedol erbyn hyn.
 - O ganlyniad i'r ymgynghoriad cymunedol mae'r byngalo nodedig Y Fron i'r de o'r Ganolfan Dreftadaeth wedi cael ei nodi fel un sy'n debyg o ran ansawdd a dyluniad i'r byngalos ar Heol yr Orsaf ac o ddiddordeb digonol i'w gynnwys yn yr ardal gadwraeth.

Ffig. 36 Estyniadau Arfaethedig i Ffin yr Ardal Gadwraeth




Cyngor Sir Ceredigion
Ceredigion County Council
 Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
 Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
 Ffôn/Tel. 01546 570881

Tregaron

Allwedd / Key

 Ardal Gadwraeth
 Estyniad Arfaethedig

Graiddfa / Scale: 1:3,826
 Agraflwyd ar / Printed on: 2024-04-15

G N

© Hwffran y Ceredigion a hysbais cymhleth iddaa 2024 Ar-angw Cymran 100024419
 © Hwffran y Ceredigion a hysbais cymhleth iddaa 2024 Ar-angw Cymraeg 100024419
 © Local Government Information House Limited copyright and database rights 2024 100024419
 © Local Government Information House Limited copyright and database rights 2024 100024419
 © NICE Press Publishers, Welsh Government 2009, 2013 Llywodraeth Cymru 2009, 2013

0 100 200 m



Ffigurau 37 a 38 Hafod a'i fanylion pren diddorol




Ffig. 39 Brenig View



Ffig. 40 Poplars

3.3 Argymhelliad

- 3.3.1 Argymhellir gwneud estyniad bach i Ardal Gadwraeth Tregaron i gynnwys yr adeiladau a nodwyd uchod ac fel y dangosir ar y map ar y dudalen flaenorol.



Ffig. 41 Tloty Undeb Tregaron, Poplar a Brennig View ar yr argraffiad cyntaf o fap yr Arolwg Ordnans

4. YR ANGEN AM GANLLAWIAU DYLUNIO MANWL NEU WYBODAETH GYHOEDDUS

4.1 Cyflwyniad

- 4.1.1 Mae awdurdodau cynllunio lleol yn ymwneud â rheoli ardaloedd cadwraeth o ddydd i ddydd trwy eu rôl yn y broses gynllunio. Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol anelu at **gadw neu wella cymeriad neu olwg** ardaloedd cadwraeth ac mae angen iddynt graffu ar geisiadau cynllunio yn agos gyda'r amcanion hyn mewn golwg.
- 4.1.2 Gall gwybodaeth fanwl am agweddau arbennig ar yr amgylchedd adeiledig hanesyddol helpu perchnogion, meddianwyr, asiantau cynllunio a'r awdurdod cynllunio lleol i benderfynu ar y ffyrdd gorau o reoli newid cadarnhaol a mabwysiadu dull cyson.
- 4.1.3 Gall gwybodaeth neu ddehongliad cyhoeddus helpu i sicrhau bod pawb yn deall pam bod ardal yn arbennig. Mae pobl sy'n deall pam bod rhywbeth yn arbennig yn fwy tebygol o ofalu amdano a theimlo eu bod am ofalu amdano. Gall hefyd helpu gyda'r cynnig twristiaeth a hybu buddsoddiad mewn ardal leol.

4.2 Tregaron

- 4.2.1 Mae Cynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Tregaron wedi'i nodi yn y wybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor. Mae'n debygol bod y ddogfen hon wedi cael ei chynhyrchu ar gyfer un o'r cynlluniau grant ariannu a oedd yn weithredol yn yr ardal rhwng 2004-2008 a 2008-2011. Felly mae'n debygol ei fod wedi dyddio a heb fawr o ddefnydd ar gyfer llywio'r cynllun cyfredol hwn.

- 4.2.2 Ychydig o wybodaeth sydd ar gael am hanes y dref ac mae'r hyn sydd ar gael yn dod o'r un ffynonellau prin yn bennaf. Mae canolfan dreftadaeth / amgueddfa yn Nhregaron ond mae ei gwefan yn sylfaenol ac mae ganddi oriau agor cyfyngedig i'r cyhoedd.
- 4.2.3 Mae nifer o lwybrau cerdded yn cychwyn ac yn gorffen yn Nhregaron – mae'r rhain yn annog pobl i ddarganfod yr ardaloedd cyfagos yn bennaf. Nid oes llwybr cerdded hawdd ei gyrraedd i'w weld yn debyg i lwybr tref.
- 4.2.4 Mae'r unig fap sydd ar gael ar hyn o bryd ar wefan y Cyngor yn dangos Ardal Gadwraeth Tregaron wedi'i ymgorffori yn nogfennau'r CDLI. Nid oes unrhyw sôn am Gyfarwyddyd Erthygl 4.
- 4.2.5 Y ddwy ddogfen fwyaf perthnasol yw Cynllun Lle Tregaron (drafft) ac *Arolygon o Drefi Hanesyddol Aberteifi a Thregaron Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed* (2007). Mae'r olaf yn ddogfen hynod ddefnyddiol ond nid yw'n hawdd cael gafael arni. Mae arolwg tirwedd hanesyddol hefyd wedi cael ei gynnal sy'n cynnwys Tregaron, ond dim ond ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar wefan Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed.
- 4.2.6 Mae crwydro ar eich pen eich hun yn bosibl wrth gwrs yn Nhregaron, a bydd cerddwyr chwilfrydig yn darganfod pensaernïaeth werinol hyfryd. Fodd bynnag, mae cymeriad preifat iawn i'r strydoedd cefn cul troellog ac mae rhywun yn teimlo ei fod yn ymyrryd â gofod cyfyngedig. Mae'n annhebygol y byddai'r rhan fwyaf o ymwelwyr yn mentro i ardaloedd o'r fath oni bai eu bod yn cael eu hannog i wneud hynny.



Ffigurau 42 & 43 Mae'r lonydd cefn troellog yn cuddio llawer o adeiladau gwerinol diddorol

- 4.2.7 Nid oes unrhyw arfarniad neu gynllun rheoli cyfredol, cyfoes a mabwysiedig ar gyfer yr ardal gadwraeth ac ychydig o wybodaeth arall sydd ar gael i drigolion ac ymwelwyr.

4.3 Argymhellion

- 4.3.1 Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.
- 4.3.2 Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Tregaron ar gyfer trigolion a busnesau sy'n egluro beth sy'n bwysig am yr ardal, unrhyw reolaethau a beth mae'n ei olygu i fyw a gweithio yn yr ardal. Dylid sicrhau bod hwn ar gael ar wefan y Cyngor hefyd.
- 4.3.3 Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth Cymru, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi a sefydliadau eraill, datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth newydd sy'n berthnasol i'r ardal. Gallai enghreifftiau gynnwys canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio ffenestri a drysau hanesyddol, microgynhyrchu a'r canllawiau newydd ar inswleiddio waliau allanol.
- 4.3.4 Cynhyrchu canllawiau ar gynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni ar gyfer pob ardal gadwraeth, adeiladau hanesyddol a rhestredig yng Ngheredigion. Gellid cynhyrchu hwn ar y cyd ag awdurdodau eraill neu adnoddau presennol megis Canolfan Tywi, Adeiladu Treftadaeth yng Nghymru neu'r Gynghrair Adeiladau Traddodiadol. Dylai'r canllawiau gwmpasu:
- **Cynnal a chadw:** Mae diffygion adeiladu yn effeithio ar gynaliadwyedd adeiladau hanesyddol yn y tymor hir. Mae addysgu ceidwaid adeiladau a chontractwyr yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, diogelu treftadaeth bensaernïol y rhanbarth, a chyflawni nodau cynaliadwyedd. Mae defnyddio deunyddiau a sgiliau traddodiadol priodol mewn modd amserol yn hanfodol bwysig i barhad adeiladau hanesyddol yn y tymor hir.
 - **Adeiladwaith traddodiadol a sut mae hen adeiladau'n gweithio:** Yn gyffredinol diffinnir adeiladau traddodiadol fel y rhai a gafodd eu hadeiladu cyn 1919, gyda waliau solet (yn hytrach na waliau ceudod), gan ddefnyddio deunyddiau naturiol gan gynnwys cerrig, pridd, brics, pren a chalch. Mae'r term 'traddodiadol' yn cwmpasu amrywiaeth enfawr o fathau, arddulliau ac oedrannau adeiladu, o fythynnod cerrig i gestyll ac o dai tref i gapeli. Mae'r deunyddiau a'r technegau a ddefnyddir mewn adeiladu traddodiadol wedi creu'r adeiladau unigol, cyferbyniol ac idiosyncratig sy'n helpu i ddiffinio cymeriad unigryw ein trefi, pentrefi a thirweddau gwledig, a hunaniaeth y cymunedau sy'n byw ynddynt. Mae adeiladau hŷn yn defnyddio technegau adeiladu gwahanol i adeiladau newydd modern. Mae deall hyn a dysgu sut i ddefnyddio'r technegau priodol yn hanfodol i hirhoedledd ein hadeiladau hanesyddol.

- **Arbed ynni ac ôl-ffitio mewn adeiladau hanesyddol:** Dylai'r canllawiau gwmpasu: effeithlonrwydd ynni a pham ei fod yn bwysig – iechyd, newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon; Beth yw ôl-osod a pham fod angen agwedd arbennig ar adeiladau hŷn?; Opsiynau ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau traddodiadol – e.e. defnydd, sicrhau dull tŷ cyfan, dewisiadau eraill yn lle newid ffenestri a drysau traddodiadol, pwysigrwydd gwresogi ac awyru, anadlwyedd ac inswleiddio, cynnal a chadw ac atgyweirio etc.

- 4.3.5 Cynnal ymchwil hanesyddol ychwanegol ar dref Tregaron i ddeall ymhellach ei datblygiad a'i harwyddocâd. Gallai hwn fod yn brosiect a arweinir gan y gymuned sy'n helpu i nodi pa ardaloedd y dylid cyfeirio twristiaid atynt, a dylai fwydo i mewn i'r cynllun dehongli (isod). Dylid cynnwys Cymdeithas Hanes Tregaron, Cymdeithas Hanes Ceredigion a'r Fforwm Hanes Lleol, ymhlith eraill.
- 4.3.6 Ar y cyd â'r gymuned a busnesau lleol, ystyried datblygu cynllun dehongli, cyfathrebu a marchnata ar gyfer Tregaron yn seiliedig ar y Cynllun Lle, y CDLI, dogfennau strategol eraill, ac ymchwil hanesyddol ychwanegol. Dylai hyn ystyried pob math o ddulliau cyflwyno gwybodaeth er mwyn osgoi cael annibendod arwyddion yn Nhregaron a hybu'r cynnig sydd ar gael yn y ganolfan dreftadaeth / amgueddfa.
- 4.3.7 Diweddarau'r canllawiau dylunio blaenau siopau presennol ar gyfer Aberystwyth er mwyn gallu eu defnyddio ym mhob ardal gadwraeth yng Ngheredigion. Gweithio gyda sefydliadau busnes

lleol i ddsbarthu a darparu hyfforddiant.



Ffig. 44 Byddai canllawiau dylunio blaenau siopau yn ychwanegiad defnyddiol at y nodiadau canllaw ar gyfer pob ardal hanesyddol

5. CYFLEOEDD AR GYFER RHESTRU LLEOL

5.1 Cyflwyniad

- 5.1.1 Gall awdurdodau cynllunio lleol ddewis nodi asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig a chadw rhestr ohonynt. Gelwir hyn yn 'rhestru lleol'. Gall y rhestr gynnwys pob math o asedau hanesyddol — adeiladau, parciau, gerddi, henebion a safleoedd archeolegol — ar yr amod nad ydynt eisoes wedi'u dynodi'n ffurfiol.
- 5.1.2 Dylai'r asedau a nodir i'w cynnwys ar y rhestr wneud cyfraniad pwysig at hynodrwydd lleol a bod â'r potensial i gyfrannu at wybodaeth y cyhoedd.
- 5.1.3 Dylai eu dewis fod yn seiliedig ar feini prawf clir, tystiolaeth leol gadarn ac ymgynghoriad cyhoeddus. Mae arfarniad ardal gadwraeth yn un ffordd o nodi'r asedau hyn.
- 5.1.4 Rhaid ychwanegu rhestr fabwysiedig o asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig at y cofnod amgylchedd hanesyddol lleol er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad ato. Wedi hynny rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ddatblygu polisiau cynllun lleol perthnasol y gellir eu defnyddio i wneud penderfyniadau.
- 5.1.5 Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael yma: <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN.pdf>

5.2 Tregaron

- 5.2.1 Mae gan Tregaron ychydig o adeiladau hanesyddol sydd o arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol lleol arbennig ac sydd heb eu dynodi yn eu rhinwedd eu hunain.
- 5.2.2 Byddai cydnabod yr adeiladau hyn trwy eu cynnwys ar 'restr leol' yn:
- Cydnabod bod yr adeiladau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl leol
 - Rhoi cyfle i'r gymuned gymryd rhan yn y gwaith o'u nodi a gofalu amdanynt yn briodol
 - Caniatáu i'r Cyngor wneud cais am gyllid neu gynlluniau grant a fyddai'n darparu cyfleoedd adfywio ar gyfer adeiladau rhestredig lleol
 - Galluogi ystyried newidiadau yn ofalus trwy'r broses gynllunio i sicrhau eu bod yn gadarnhaol ac nid ydynt yn effeithio'n negyddol ar yr asedau, eu lleoliad na'r cymunedau y maent wedi'u lleoli

5.3 Argymhelliad

- 5.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' a fyddai'n nodi'r meini prawf ar gyfer cynnwys adeiladau ar restr o'r fath a datblygu'r rhestr.

- 5.3.2 Dylai cymunedau lleol gael cyfle i fod yn rhan o'r broses ddewis.
- 5.3.3 Dylai Cyngor Sir Ceredigion ddatblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol fel rhan o'r CDLI newydd neu fel Canllawiau Cynllunio Atodol.
- 5.3.4 Mae'r arfarniad yn nodi rhestr o awgrymiadau ar gyfer adeiladau y gellid eu cynnwys ar 'restr leol'. Dylid asesu'r adeiladau hyn yn erbyn y meini prawf a ddatblygir gan y Cyngor.



Ffig. 45 Ty Capel



Ffig. 46 Yr Hen Gapel Methodistaidd

6. YSTYRIED GORFODI

6.1 Cyflwyniad

- 6.1.1 Mae gan orfodi rôl allweddol i'w chwarae wrth ddiogelu ardaloedd cadwraeth.
- 6.1.2 Mae'n hanfodol sicrhau bod holl berchnogion a meddianwyr adeiladau'n deall lle mae cyfyngiadau ar ddatblygu, beth yw eu hawliau datblygu a ganiateir, a'u bod yn gallu cysylltu â'r ACLI am gyngor.
- 6.1.3 Mae monitro rheolaidd yn ddull mwy rhagweithiol ar gyfer ACLlau a allai helpu i leihau nifer y tramgwyddau.
- 6.1.4 Trafod a negodi gyda'r perchennog/meddiannwr yw'r cam cyntaf i'w gymryd mewn unrhyw achos a all arwain at ateb addas heb fod angen cymryd camau gorfodi.

6.2 Tregaron

- 6.2.1 Nid oes unrhyw wybodaeth adolygiad sylfaen gynhwysfawr ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Tregaron.
- 6.2.2 Mae'n bosibl na fydd perchnogion a meddianwyr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir a lle gallai fod cyfyngiadau ar ddatblygu.
- 6.2.3 Nodwyd y bu colled sylweddol o ffenestri a drysau traddodiadol ar draws yr ardal gadwraeth er gwaethaf bodolaeth Cyfarwyddyd Erthygl 4(2). Yr hyn na wyddys yw amgylchiadau pob achos unigol.

- 6.2.4 Mae nifer o safleoedd anniben o fewn ac yn lleoliad yr ardal gadwraeth sy'n effeithio'n negyddol ar ei chymeriad a'i golwg. Mae gan y Cyngor bwerau amrywiol y gellid eu defnyddio, os oes angen, i fynd i'r afael â'r safleoedd problemus hyn. Trafodir hyn ymhellach yn Adran 10 (Gwelliannau Amgylcheddol).



Ffigurau 47 ac 48 Mae safleoedd anniben yn effeithio'n negyddol ar gymeriad a golwg cyffredinol yr ardal

6.3 Argymhellion

- 6.3.1 Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi.
- 6.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion.
- 6.3.3 Dylai'r Cyngor gymryd camau i sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau.
- 6.3.4 Dylid cynnal arolwg ffotograffig dilynol yn ystod yr adolygiad nesaf o'r arfarniad ardal gadwraeth, bob pum mlynedd yn ddelfrydol.

7. CYFLEOEDD AR GYFER ADFYWIO

7.1 Cyflwyniad

- 7.1.1 Gall ardaloedd hanesyddol fod yn ffocws pwysig ar gyfer adfywio cymunedol. Mae eu cymeriad unigryw yn ased a all greu buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer cymunedau Cymru. Gall adfywio helpu i greu ymdeimlad o le a hynodrwydd lleol, a chefnogi sgiliau gwerthfawr ac annog buddsoddiad.
- 7.1.2 Mae llawer o ardaloedd hanesyddol wedi dioddef o ddirywiad mewn gweithgarwch economaidd, sy'n arwain at adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio a buddsoddiad isel. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen cymryd camau wedi'u targedu i ddatgloi potensial a

gwireddu buddion ehangach. Gall gweithgareddau adfywio roi ystyr a pherthnasedd newydd i asedau hanesyddol, gan roi bywyd newydd i adeiladau ac ardaloedd sy'n cael eu tanddefnyddio a'u tanbrizio.

7.2 Tregaron

- 7.2.1 Mae Tregaron wedi elwa o ddau gynllun grant ariannu yn y gorffennol: Cynllun Treftadaeth Treflun yn 2004-2008 a Phartneriaeth Cynllun Treftadaeth Wledig yr Ucheldir 2008-2011. Yn ogystal, mae sawl cynllun ariannu adfywio eraill wedi cael eu cefnogi gan y Cyngor, ond ni wyddys a yw busnesau a thrigolion Tregaron wedi elwa o'r cynlluniau hyn, er eu bod wedi bod yn gymwys i wneud cais amdanynt.
- 7.2.2 Mae enghreifftiau o fewn y dref o fusnesau lleol llwyddiannus sydd wedi gallu ehangu eu busnes yn gyfforddus o fewn yr eiddo presennol neu aildefnyddio adeiladau drws nesaf neu gyfagos. Mae'n ymddangos bod busnesau eraill wedi cael trafferth i ddod o hyd i eiddo addas a gall gweithrediadau busnes gael eu rhannu rhwng sawl safle yng nghanol trefi.
- 7.2.3 Mae busnesau newydd llwyddiannus wedi agor yn Nhregaron ond mae eraill wedi methu yn anffodus. Mae'r rhain a cholli cyfleusterau tref megis y banciau wedi gadael eiddo gwag allweddol. Mae rhai eiddo gwag sydd wedi colli eu defnydd gwreiddiol hefyd, megis yr hen ysgol gynradd ac sydd heb eu haildefnyddio neu eu hailddatblygu eto.
- 7.2.4 Lle mae adeiladau yn wag am gyfnod hir, mae gwaith cynnal a chadw yn cronni yn aml a gall hyn arwain at golli nodweddion pensaernïol neu hyd yn oed rhoi cyfiawnhad dros golli adeilad yn y pen draw. Mae llawer o'r eiddo gwag yn y dref yn cyfrannu'n gadarnhaol at ei chymeriad a'i golwg a byddai'n ddymunol cadw'r rhain lle bo modd.
- 7.2.5 Mae eiddo gwag allweddol yn cynnwys:
- Hen Fanc Natwest (Adeilad Rhestredig Gradd II)
 - Hen Fanc Barclays (Y Banc) – rhannol?
 - Yr Hen Ysgol Sirol ar Ffordd Llambed
 - Hen Swyddfeydd y Cyngor, Sgwâr Talbot
 - Trefelin, Heol yr Orsaf (Adeilad Rhestredig Gradd II)
 - Hafod, Heol Dewi
 - Ysguboriau gwerinol cerrig bach (tŷ unnos o bosib) mewn ardaloedd preswyl – rhai yn cael eu defnyddio ar gyfer storio ac ati

7.2.6 Mae dyfodol yr ysbyty a'i safle yn ansicr ar hyn o bryd.



Ffig. 49 Yr Hen Ysgol Siriol



Ffig. 50 Ysgubor Gerrig Werinol fach (Ty Unnos o bosib?)

7.3 Argymhellion

- 7.3.1 Mae sawl rheswm pam y gall eiddo barhau'n wag. Er enghraifft, gall fod diffyg cymhelliant gan y perchennog i ailddatblygu neu werthu, gall fod cyfyngiadau ariannol, gall fod materion cyfreithiol, gall fod yn adeilad anodd ei aildddefnyddio neu ei ailddatblygu. Efallai y bydd y Cyngor yn gallu cyngori perchnogion am gynlluniau aildddefnyddio ac addasu addas trwy ei wasanaeth cyn ymgeisio presennol. Gellid ystyried gwasanaeth cyngori cyn ymgeisio arbenigol yn cynnwys yr holl adrannau a swyddogion angenrheidiol (e.e. cynllunio, polisi, treftadaeth, ecoleg, priffyrdd, ac ati) – 'siop un stop' ar gyfer datblygwyr a fyddai hefyd yn creu incwm i'r Cyngor. Cynhaliodd Cyngor Sir Powys wasanaeth tebyg rai blynyddoedd yn ôl.
- 7.3.2 Ystyried datblygu cofrestr o eiddo masnachol gwag y gellid eu haildddefnyddio at ddibenion eraill a'i chyfuno â'r cynnig 'siop un stop' uchod. Gallai hyn helpu i sicrhau bod busnesau llwyddiannus yn gallu ehangu yn eu hardal leol a bod llai o rwystrau i fusnesau newydd.
- 7.3.3 Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod gan berchnogion a defnyddwyr adeiladau yr offer angenrheidiol i wneud eu gwaith atgyweirio ac adnewyddu priodol eu hunain. Gall hyn gynnwys canllawiau, hyfforddiant a mentora.
- 7.3.4 Dylai'r Cyngor gysylltu â pherchnogion adeiladau eiddo gwag hirdymor i sefydlu'r rhesymau dros eu diffyg defnydd a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio ceisiadau ar gyfer cynlluniau ariannu adfywio. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu cronfa grantiau tai gwag ar hyn o bryd.
- 7.3.5 Yn unol â Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth Aberystwyth, dylai'r Cyngor geisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestredig gwag i sefydlu sefydliad hyfforddi Cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau megis Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE), Prosiect Ystrad Fflur, Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion (HCT),

Addysg Oedolion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, neu'r tebyg. Gallai hyn hyfforddi pobl leol mewn technegau cadwraeth, creu swyddi sy'n darparu gwasanaethau cadwraeth lleol i berchnogion a meddianwyr yn y trefi a'r ardaloedd cyfagos. Gallai hyn ddarparu adnodd gwerthfawr a chynaliadwy a fyddai'n cefnogi adfywio canol trefi ac ardaloedd cadwraeth Ceredigion, yn ogystal â darparu rhywfaint o gyflogaeth, uwchsgilio perchnogion a meddianwyr, a helpu i gadw a gwella pensaernïaeth hanesyddol y sir. Gellid defnyddio model tebyg i ymddiriedolaeth cadwraeth adeiladau Adfer Ban a Chwm Sir Gaerfyrddin.

- 7.3.6 Mae ychydig o adeiladau gwag yng nghanol y dref ac mae rhai ohonynt yn Rhestredig (gweler uchod). Dylai'r Cyngor weithio gyda'i bartneriaid megis y Cyngor Tref a fforymau busnes lleol i nodi defnyddiau priodol ac annog perchnogion i atgyweirio adeiladau mewn modd sensitif fel eu bod yn ddeniadol i fuddsoddwyr. Mae nifer o offer ar gael i'r Cyngor eu defnyddio i 'annog' perchnogion i wella eu heiddo megis Hysbysiadau Atgyweirio, Hysbysiadau Adran 105, a Hysbysiadau Gwaith Brys. Yn gyffredinol mae angen rhywfaint o ymrwymiad ariannol gan y Cyngor ar gyfer y rhain ond yn ddiweddar mae grantiau wedi bod ar gael gan Cadw i gynorthwyo gyda gweithgareddau o'r fath. Dylai'r Cyngor sicrhau eu bod yn barod i fanteisio ar gynlluniau o'r fath pe baent yn cael cynnal eto.
- 7.3.7 Os yw perchnogion yn fodlon, ystyried defnyddiau eraill ar gyfer ysguboriau gwerinol bach segur. Byddai'r rhain yn ddelfrydol ar gyfer busnesau bach newydd megis gweithdai crefft a allai gael eu hymgorffori mewn llwybr tref, annog entrepreneuriaeth, creu swyddi ac annog ymwelwyr i grwydro'r dref. Gellid ceisio cyllid ar gyfer eu cadw a'u hatgyweirio.
- 7.3.8 Bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r Cynllun Gwella – Perfformiad 2011-12 i fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.
- 7.3.9 Datblygu cynnig twristiaeth sy'n cadw pobl yn y dref yn ogystal â thynnu sylw at y gweithgareddau twristiaeth a safleoedd yn yr ardaloedd cyfagos (gweler 4.3.6).
- 7.3.10 Byddai gweithredu i fynd i'r afael â safleoedd anniben (gweler adran 10) nid yn unig yn gwella cymeriad a golwg yr ardal gadwraeth ond hefyd yn ei gwneud yn lle gwell i bobl leol ac ymwelwyr.

8. CANLLAWIAU HYSBYSEBU A RHEOLI

8.1 Introduction

- 8.1.1 Un o amcanion y system rheoli hysbysebion yw annog arddangos hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at olwg yr amgylchedd. Mae llawer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys eiddo masnachol yn amrywio o siopau cornel bach i ganolfannau masnachol

ffyniannus, felly gall hysbysebu awyr agored fod yn hollbwysig i fywiogrwydd masnachol. Mae'r mathau o hysbysebion sydd angen caniatâd cynllunio yn cynnwys hysbysebion wedi'u goleuo ar eiddo busnes a hysbysebion ar hysbysfyrdau o amgylch safleoedd datblygu.

- 8.1.2 Gall awdurdodau ddewis mabwysiadu polisiau rheoli hysbysebion fel rhan o'u cynigion ar gyfer cadw neu wella ardaloedd cadwraeth, er enghraifft, trwy ddynodi ardaloedd rheoli hysbysebion arbennig. Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio rheolaethau o'r fath mewn modd hyblyg i warchod y nodweddion hynny sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol a arweiniodd at y dynodiad.

8.2 Tregaron

- 8.2.1 Mae gan yr ardal gadwraeth graidd masnachol fach. Mae'r ardal hon yn cynnwys ffryntiadau siopau hanesyddol, tafarndai ac adeiladau dinesig sydd wedi goroesi ac sydd wedi'u disodli. Mae rhywfaint o ffasgia a hysbysebion siopau o ansawdd gwael neu wedi'u dylunio'n wael.



Ffig. 51 Blaen Siop Traddodiadol



Ffig. 52 Blaen Siop y gellid ei wella



Ffig. 53 Blaen Siop newydd mewn arddull draddodiadol

8.3 Argymhellion

- 8.3.1 Ni ystyrir bod angen ardal o reolaeth hysbysebu arbennig yn Ardal Gadwraeth Tregaron ar hyn o bryd. Yn hytrach, dylai trafodaethau â pherchnogion a rheolwyr siop fod yn flaenoriaeth.
- 8.3.2 Adolygu canllawiau blaen siopau Aberystwyth 2013 i ymdrin ag arfer da ym mhob ardal gadwraeth ac ystyried ail-ryddhau'r canllawiau gyda hyrwyddiad ychwanegol ledled ardaloedd cadwraeth Ceredigion.

9. ADEILADAU MEWN PERYGL

9.1 Cyflwyniad

- 9.1.1 Cadw'r defnydd o adeiladau a'u cynnal yw congifaen rheolaeth lwyddiannus o ardal gadwraeth. Mae adeiladau sy'n cael eu hesgeuluso a'u tanddefnyddio yn niweidio bywiogrwydd ac atyniad ardaloedd cadwraeth.

9.2 Adeiladau Gwag yn Nhregaron

- 9.2.1 Mae nifer fach o adeiladau o fewn yr ardal gadwraeth sy'n wag ar hyn o bryd a rhai sy'n effeithio'n negyddol ar gymeriad a golwg yr ardal (gweler Adran 7.2.5 uchod).

9.3 Argymhellion

- 9.3.1 Dylai'r Cyngor sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. Byddai hyn yn amlinellu dull strategol o nodi a rheoli'r adeiladau hyn. (gweler: <https://cadw.gov.wales/advice-support/historic-assets/listed-buildings/listed-buildings-risk#section-managing-listed-buildings-at-risk>).
- 9.3.2 Mae'n ofynnol i berchnogion adeiladau rhestredig eu cadw mewn cyflwr rhesymol. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol bwerau i gyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill mewn achosion eithafol. Os bydd trafodaethau'n aflwyddiannus, dylai'r Cyngor ystyried defnyddio ei bwerau statudol.
- 9.3.3 Dylai'r Cyngor, er mwyn cwmpasu'r holl ardaloedd cadwraeth, adeiladau rhestredig ac eiddo heb eu dynodi, ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu cynlluniau a chyrsgiau hyfforddi – hyfforddi meddianwyr a pherchnogion mewn arferion cadwraeth da, yn enwedig atgyweirio a chynnal a chadw gyda deunyddiau priodol. Gweler Cynllun Rheoli Cadwraeth Aberystwyth am awgrymiadau ar gyfer cynllun llawn. Byddai dosbarthu cyhoeddiad megis '*Stitch in Time*' (IHBC a SPAB) i'r holl eiddo yn ardaloedd cadwraeth Ceredigion yn ddechrau da i'r broses hon.

10. GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL

10.1 Cyflwyniad

- 10.1.1 Yn ogystal â'r offer gorfodi amrywiol sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol, mae cyfleoedd ychwanegol ar gyfer gwella'r amgylchedd. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau cenedlaethol, adrannau eraill y Cyngor a sefydliadau lleol megis Cyngorau Tref a fforymau busnes.
- 10.1.2 Mae cyfleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn aml yn ymwneud â seilwaith ffisegol y dref, gan gynnwys priffyrdd, gwaith gan ymgymerywyr statudol, iechyd yr amgylchedd, tai ac eraill.
- 10.1.3 Gall ymgysylltu â'r gymuned a mentora hefyd greu newid cadarnhaol o fewn ardaloedd dynodedig.

10.2 Tregaron

- 10.2.1 Mae sawl ardal o fewn yr ardal gadwraeth a'i lleoliad y gellir eu dosbarthu fel safleoedd anniben. Mae'n ymddangos bod rhai o'r rhain yn lle storio ar gyfer cerbydau segur. Mae map yn dangos lleoliadau'r safleoedd hyn i'w weld uchod.
- 10.2.2 Mae rhai enghreifftiau o estyniadau bach neu dai allan sydd wedi'u dylunio'n wael a defnydd o ddeunyddiau amhriodol o fewn yr ardal gadwraeth sy'n effeithio'n negyddol ar y golwg a'r cymeriad cyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn digwydd yng nghefn eiddo ond maent yn dal i gael eu rheoli trwy'r system gynllunio yn aml ac maent yn weladwy o fannau cyhoeddus.
- 10.2.3 Mae amrywiaeth o ddodrefn stryd ar draws yr ardal gadwraeth ond yn gyffredinol mae'n gydnaws â chymeriad hanesyddol yr ardal.
- 10.2.4 Mae'r palmant coblog hanesyddol yn nodwedd bwysig a deniadol o'r ardal gadwraeth ond mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n wael yn y rhan fwyaf o leoedd, ac mae gwaith ailwynebu ffyrdd diweddar wedi dechrau amharu arno mewn mannau eraill.
- 10.2.5 Mae parcio ar y stryd yn digwydd yn rheolaidd yng nghanol y dref. Yn ddiweddar mae'r ffioedd ar gyfer defnyddio'r maes parcio yn Nhregaron wedi cael eu dileu gan y Cyngor, fodd bynnag, ni wyddys pa mor eang y mae ymwelwyr, trigolion a chymunedau cyfagos sy'n ymweld â'r dref yn gwybod am hyn. Mae parcio ar y stryd yn digwydd o bosibl oherwydd y canfyddiad bod taliadau'n cael eu codi yn y maes parcio cyhoeddus cyfagos neu'n syml y dymuniad i bario mor agos â phosibl at y siopau poblogaidd amrywiol.
- 10.2.6 Mae gan Dregaron nifer o ddarnau o gelf gyhoeddus. Mae'r rhain yn helpu i adrodd hanes y dref a rhoi gwybodaeth am ei diwylliant. Mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu cynnal i sicrhau parth cyhoeddus croesawgar o ansawdd uchel.



Ffigurau 55 a 56 Mae dodrefn stryd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan ac yn gydgysylltiedig

10.3 Argymhellion

- 10.3.1 Rhaid i dîm rheoli datblygu'r Cyngor annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth, yn enwedig trwy ddefnyddio'r broses ymholi cyn ymgeisio a sicrhau bod y CCA presennol yn addas i'r diben. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu ac ail-ryddhau'r CCA a'u hyrwyddo yn enwedig o fewn ardaloedd dynodedig.
- 10.3.2 Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig, a bod adnoddau ar gael ar gyfer cymryd camau gorfodi os a phan fo angen.
- 10.3.3 Os oes angen, cynnig hyfforddiant i Swyddogion Priffyrdd ar ddylunio da mewn ardaloedd cadwraeth. Mae rhai cyhoeddiadau a chanllawiau ardderchog ar gael fel 'Streets for All' Historic England (<https://historicengland.org.uk/images-books/publications/streets-for-all/heag149-sfa-national/>).
- 10.3.4 Ar y cyd â'r Adran Briffyrdd, llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Bydd yn rhoi sylw i wynebaw, rheiliau diogelwch, dodrefn stryd, goleuadau a nodweddion ffyrdd a diogelwch priffyrdd.
- 10.3.5 Gyda'r gymuned leol, sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella'r ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach a fyddai'n gwneud gwahaniaeth mawr megis codi sbwriel, nodi

arwyddion i'w symud, asesu cyflwr celf cyhoeddus, nodi eiddo gwag ac ati (gweler: <https://www.keepbritaintidy.org/sites/default/files/resources/How%20To%20Organise%20A%20Litter-Picking%20Event.pdf>). Gallai hefyd wneud sylwadau ar gynigion datblygu mewn ardaloedd cadwraeth a dwyn unrhyw faterion yn y dyfodol o fewn yr ardal gadwraeth at sylw'r Cyngor. Dylai'r Cyngor ddarparu mentora a hyfforddiant.

10.3.6 Ystyried parhau â'r cynllun parcio am ddim i annog pobl leol i ddefnyddio'r maes parcio presennol a rhoi cyhoeddusrwydd ehangach iddo. Byddai hyn hefyd yn annog mwy o bobl i ymweld a siopa yng nghanol y dref ac aros yn hwy.

11. COED, TIRWEDD A MANNAU AGORED

11.1 Cyflwyniad

11.1.1 Mae coed yn elfen bwysig o gymeriad ac amwynder llawer o ardaloedd cadwraeth ac, ynghyd â mannau agored gwyrdd (gan gynnwys gerddi preifat), mae ganddynt rôl werthfawr i'w chwarae mewn gwasanaethau ecosystem. I gyd-fynd â'r rheolaethau dros goed mewn ardaloedd cadwraeth, gall awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu polisïau lleol penodol ar gyfer gwarchod a rheoli coed ac elfennau eraill o'r amgylchedd naturiol, megis gwrychoedd ac ymylon ffyrdd.



Ffig. 57 Mae coed a gwrychoedd yn bwysig ar gyfer bioamrywiaeth yn ogystal â chyfrannu at gymeriad a golwg yr ardal gadwraeth

11.1.2 Gallai strategaeth ar gyfer coed gynnwys asesiad o'u gwerth o ran amwynder a bioamrywiaeth, a'u cyfraniad at wasanaethau ecosystem cyn bod pwysau i'w gwaredu. Gellid integreiddio gwarchod a rheoli coed a mannau agored mewn strategaeth seilwaith gwyrdd.

11.2 Tregaron

11.2.1 Mae gan Dregaron nifer fawr o goed unigol ac ardaloedd o orchudd coed yng nghanol y dref sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ei chymeriad a'i golwg.

11.2.2 Mae'r arfarniad wedi nodi nifer o fannau agored sy'n cyfrannu'n fawr at gymeriad a bywiogrwydd Ardal Gadwraeth Tregaron. Mae rhai o'r rhain yn cael eu tanddefnyddio neu gellid eu gwella.

11.2.3 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi mabwysiadu Strategaeth ar gyfer Gwyrddu Trefi ac mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi cael ei gynnal gan ymgynghorwyr.

11.3 Argymhellion

11.3.1 Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig.

11.3.2 Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n rheolaidd.

11.3.3 Ystyried comisiynu adroddiad coed ar wahân a / neu gynnwys y gymuned leol wrth adnabod a mapio coed a grwpiau o goed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.

11.3.4 Diogelu coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLI.

12. MONITRO AC ADOLYGU

12.1 Introduction

12.1.1 Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adolygu ardaloedd cadwraeth presennol 'o bryd i'w gilydd' – yn gyffredinol ystyrir mai bob pump i ddeng mlynedd yw'r arfer gorau.

12.1.2 Dylai'r adolygiad sefydlu'r cynnydd a wnaed ers yr arfarniad blaenorol a dylai gadarnhau neu ailddiffinio materion o ddiddordeb arbennig a hollbwysig. Dylai'r adolygiad hefyd adolygu'r cynllun rheoli a darparu argymhellion newydd lle bo'n briodol.

12.1.3 Mae monitro newid yn hanfodol er mwyn gallu gwerthuso effaith dynodiad a llwyddiant strategaethau rheoli o ran cadw neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth.

12.1.4 Mae Cadw o'r farn mai'r llinell sylfaen ar gyfer adolygiad cyfnodol yw arolwg ffotograffig llawn sy'n cofnodi adeiladau o'r stryd, yn ogystal ag elfennau eraill o gymeriad, gan gynnwys coed, gerddi, ffiniau a golygfeydd. Mae lle i gynnwys grwpiau cymunedol lleol wrth wneud y gwaith hwn.

12.2 Tregaron

12.2.1 Ar hyn o bryd nid oes gan Tregaron Gynllun Rheoli ar gyfer yr ardal gadwraeth.

12.2.2 Mae'r Cyngor newydd benodi Swyddog Cynllunio newydd gyda chyfrifoldeb am gadwraeth.

12.3 Argymhellion

12.3.1 Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r arfarniad a'r cynllun rheoli hwn fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

12.3.2 Dylai'r Cyngor ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf.

12.3.3 Dylai'r Cyngor gynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol, lle bo modd.

12.3.4 Dylai'r Cyngor sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt.

12.3.5 Dylai'r Cyngor barhau i hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng cyngorau lleol, adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni.



Ffig. 58 Edrych dros Doldre

ATODIAD A: CYNLLUN GWEITHREDU

| GWEITHREDU / ARGYMHELLION (AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI) | CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID | BLAENORIAETH |
|---|--|--|
| Dylid mabwysiadu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli fel Canllawiau Cynllunio Atodol a'u defnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau. | CSC – Treftadaeth a Pholisi | Uchel 0-1 flwyddyn |
| Gweithredu'r estyniad ffin arfaethedig. | CSC – Treftadaeth a Pholisi Cyngor Tref Tregaron Y gymuned leol | Uchel 0-1 flwyddyn |
| Dylid defnyddio'r arolwg ffotograffig a gynhyrchwyd fel rhan o'r arfarniad ardal gadwraeth hwn fel gwybodaeth sylfaen at ddibenion gorfodi. | CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol | Uchel 0-1 flwyddyn Parhaus |
| Ymrwymiad i ddilyn gweithdrefnau gorfodi arfer gorau o fewn ardaloedd cadwraeth Ceredigion (Siarter Gorfodi neu'r tebyg). Trafod â'r perchnogion ynglŷn â thor rheolau. Cyflwyno Hysbysiadau Atgyweirio a defnyddio offer gorfodi eraill yn ôl yr angen. Sicrhau bod Swyddogion Gorfodi yn cael eu hyfforddi i ddeall cylch gorchwyl penodol ardaloedd cadwraeth ac adeiladau a safleoedd dynodedig. Trafod a defnyddio camau gorfodi yn ôl yr angen i wella safleoedd 'anniben'. | CSC – Treftadaeth, Gorfodaeth Cynllunio, Cyfreithiol Y gymuned leol | Uchel -0-1 flwyddyn Parhaus |
| Sicrhau bod cynlluniau adfywio a chynlluniau eraill yn defnyddio egwyddorion dylunio ar sail treftadaeth i sicrhau bod arwyddocâd yr ardaloedd hyn yn llywio datblygiad unrhyw gynigion. Llundio briffiau dylunio ar gyfer safleoedd datblygu a mewnlenni posibl o fewn ac yn lleoliad yr ardal gadwraeth. Annog dylunio da ar gyfer estyniadau a datblygiadau newydd o fewn ardaloedd cadwraeth. Ystyried adolygu CCA perthnasol presennol. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Rheoli Datblygu Cyngorau Tref a Chymuned / y gymuned leol | Uchel 0-1 flwyddyn Parhaus |
| Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y dogfennau strategol seilwaith gwyrdd perthnasol a mabwysiedig. Sicrhau bod yr asesiad seilwaith gwyrdd a'r strategaeth ar gyfer coed ym mhob ardal gadwraeth yn cael eu diweddarau a'u hadolygu'n rheolaidd. | CSC – Ecoleg, Polisi a Rheoli Datblygu Y gymuned leol | Uchel – parhaus |
| Diogelu coed, mannau agored a golygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth a'r rhai sy'n cyfrannu at ei lleoliad trwy'r CDLI a rheoli datblygu. Nodi cyfleoedd ar gyfer plannu coed ac annog cyfranogiad yn y Cynllun Warden Coed. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Ecoleg a Rheoli Datblygu Y gymuned leol | Uchel – parhaus |
| Sicrhau, o fewn cyfyngiadau'r gyllideb, bod Swyddogion Cadwraeth a Threftadaeth yn cael cefnogaeth wleidyddol a bod adnoddau digonol ganddynt. | CSC | Uchel – parhaus |

| GWEITHREDU / ARGYMHELLION (AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI) | CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID | BLAENORIAETH |
|---|---|--|
| Hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng adrannau, busnesau lleol a chymunedau i sicrhau bod eu dyletswydd statudol mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth yn cael ei chyflawni. | CSC | Uchel – parhaus |
| Cynhyrchu taflen Ardal Gadwraeth Tregaron. Sicrhau bod pob perchennog a meddiannwr yn ymwybodol o'u hawliau datblygu a ganiateir ac unrhyw gyfyngiadau, yn enwedig mewn perthynas â Chyfarwyddyd Erthygl 4. | CSC – Treftadaeth, Ecoleg a Pholisi Y gymuned leol | Canolig 2-3 blynedd |
| Ystyried datblygu cynllun dehongli, cyfathrebu a marchnata a arweinir gan y gymuned ar gyfer Tregaron yn seiliedig ar ddogfennau strategol eraill. Cynnal ymchwil hanesyddol ychwanegol i gefnogi'r cynllun hwn. | CSC – Twristiaeth, Polisi Y gymuned leol | Canolig 2-3 flwyddyn |
| Ystyried parhau â'r cynllun parcio am ddim i annog pobl leol i ddefnyddio'r maes parcio presennol a rhoi cyhoeddusrwydd ehangach i hyn. | CSC | Canolig 2-3 blynedd |
| Adolygu canllawiau blaenau siopau Aberystwyth 2013 i gwmpasu arfer da ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion ym mhob ardal gadwraeth. Ceisio cyllid ar gyfer rhaglen grantiau blaenau siopau ac arwyddion. Ystyried mesurau gorfodi yn ôl yr angen. | CSC – Polisi a Threftadaeth Grwpiau Awdurdodau Lleol eraill, Swyddog Cadwraeth De a Chanolbarth Cymru | Canolig 2-3 blynedd |
| Sefydlu 'Prosiect Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig' ar gyfer y sir gyfan. Datblygu a mabwysiadu polisi Cynllun Datblygu Lleol perthnasol. | CSC – Treftadaeth a Pholisi Cymunedau lleol | Canolig 2-3 blynedd |
| Sefydlu Strategaeth Adeiladau Mewn Perygl ar gyfer y sir gyfan a fyddai'n gweithio gydag Adeiladau Rhestredig a'r rhai yr ystyrir eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio, Tai Cymunedau lleol | Canolig 2-3 blynedd |
| Gweithio gyda'r Cyngor Tref i roi ei Gynllun Lle ar waith er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau o fewn yr ardal gadwraeth. | CSC – Polisi a Threftadaeth Cyngor Tref Tregaron Y gymuned leol | Canolig 2-3 blynedd |
| Ar y cyd â pherchnogion a'r gymuned leol, ystyried defnyddiau eraill ar gyfer ysguboriau gwerinol bach segur – twristiaeth, gweithdai newydd ac ati. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Twristiaeth, Adfywio Cymunedau lleol | Canolig 2-3 blynedd |
| Sefydlu'r rhesymau dros eiddo gwag hirdymor. Ceisio cynlluniau ariannu adfywio perthnasol a hysbysebu'r rhai sydd eisoes ar gael. Ystyried sefydlu gwasanaeth cynghori cyn ymgeisio arbenigol a chofrestr o eiddo gwag. Cyfuno hyn â'r camau gweithredu isod. | CSC – Treftadaeth a Pholisi, Adfywio Cynghorau Tref a Chymuned, y gymuned leol, perchnogion adeiladau a busnesau | Canolig 2-3 blynedd ac yn barhaus |

| GWEITHREDU / ARGYMHELLION (AM EGLURHAD LLAWN GWELER Y CYNLLUN RHEOLI) | CYFRIFOLDEB / PARTNERIAID | BLAENORIAETH |
|---|---|---------------------------------------|
| Ceisio arian adfywio a chyllid arall ar gyfer amrywiaeth o gynlluniau cynnal a chadw, atgyweirio, adfywio a hyfforddi. Dylid cynnwys gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, gwelliannau i'r stryd, cydlynu dodrefn stryd ac arwyddion, disodli nodweddion pensaernïol amhriodol, buddsoddi mewn adeiladau gwag. | CSC – Treftadaeth a Pholisi, Adfywio | Canolig 2-3 blynedd a pharhaus |
| Ceisio cyllid i brynu a chadw adeilad rhestredig gwag i sefydlu canolfan hyfforddi cadwraeth mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. | CSC – Adfywio, Treftadaeth Cadw, y Brifysgol, CBHC, Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru, Sefydliad Ymchwil Adeiladu, Prosiect Ystrad Fflur Canolfan Tywi, Hyfforddiant Ceredigion Training (HCT), Addysg Oedolion Cymru, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol ac ati | Canolig 2-3 blynedd a pharhaus |
| Sefydlu grŵp cymunedol cynghori / gwella ardal gadwraeth a all gyflawni tasgau bach i wella'r ardal gadwraeth a hefyd rhoi sylwadau ar gynigion datblygu. Nodi safleoedd ar gyfer gwelliannau amgylcheddol. | CSC – Treftadaeth, Polisi Cynghorau Tref a Chymuned, y gymuned leol | Canolig 2-3 blynedd a pharhaus |
| Datblygu a mabwysiadu taflenni canllaw a gwybodaeth ar gyfer ardaloedd cadwraeth (e.e. ffenestri hanesyddol, microgynhyrchu, insiwleiddio muriau allanol, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd ynni ac ati.) | CSC – Treftadaeth Awdurdodau Lleol eraill, Grwpiau Swyddogion Cadwraeth De Cymru a'r Canolbarth, Fforwm Treftadaeth Adeiledig Cadw, IHBC, Canolfan Tywi | Isel 3-5 mlynedd |
| Priffyrdd – llunio cod dylunio ar gyfer pob ardal gadwraeth yng Ngheredigion a cheisio cyllid i'w weithredu. Hyfforddiant treftadaeth i Swyddogion Priffyrdd, yn ôl yr angen. | CSC – Treftadaeth, Polisi, Adfywio a Phriffyrdd Llywodraeth Cymru? | Isel 3-5 mlynedd |
| Ymrwymo i adolygu'r Arfarniad Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli o fewn cyfnod addas ac o fewn deng mlynedd o leiaf. Arolwg ffotograffig dilynol fel rhan o'r adolygiad nesaf. Cadw'r Cynllun Gweithredu yn gyfoes a chyhoeddi cynnydd. Cynnwys y gymuned leol yn y gwaith o fonitro a rheoli'r ardal ac adolygiadau arfarniad yn y dyfodol. | CSC – Polisi a Threftadaeth Ymgynghorwyr | Isel 5-10 mlynedd |

ATODIAD B: CYFEIRIADAU A LLYFRYDDIAETH**Deddfwriaeth a Chanllawiau**

Cadw (2011) 'Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy': https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Conservation_Principles%20for%20the%20sustainable%20management%20of%20the%20historic%20environment%20of%20Wales.pdf

Cadw (2017) 'Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Setting%20of%20Historic%20Assets%20in%20Wales%20EN.pdf>

Cadw (2017) 'Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Conservation%20Areas%20in%20Wales%2028424%20EN.pdf>

Cadw (2017) 'Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/20170531Managing%20Change%20to%20Listed%20Buildings%20in%20Wales%2024303%20EN.pdf>

Cadw (2017) 'Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Historic%20Character%20in%20Wales%20%20EN.pdf>

Cadw (2017) 'Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru': <https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Managing%20Lists%20of%20Historic%20Assets%20of%20Special%20Local%20Interest%20in%20Wales%20EN>.

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion (CDLI1): 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) CCA Cyngor Sir Ceredigion: Yr Amgylchedd Adeiledig a Dylunio

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990): <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1990/9/contents>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted>

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016: <https://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents>

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol: <https://www.gov.wales/technical-advice-note-tan-24-historic-environment>

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021): https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-02/planning-policy-wales-edition-11_0.pdf

Llyfryddiaeth

Austin, D and Bezant, J. (2019) 'The Medieval Landscapes of Cardiganshire' in Cardiganshire County History Vol 2 – *Medieval and Early Modern Cardiganshire*

Borrow, G. (1862) *Wild Wales*

Cadw et al (1998) *Cofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru*

Collard, S. A (1907) *The History of Cardiganshire.*

Cook, N. and Poucher, P (2007) *Historic Town Surveys of Cardigan and Tregaron* (Cambria Archaeology: Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (1995) *Cors Caron*

Ings, M (2012) *Medieval and Early Post-Medieval Holy Wells. A Threat Related Assessment.*

Jenkins, D (1998) 'Land and Community around the Close of the Nineteenth Century' yn *Cardiganshire County History Vol 3 – Cardiganshire in Modern Times*

Jones, I, G (1998) 'Church and Chapel in Cardiganshire, 1811-1914' in *Cardiganshire County History Vol 3 – Cardiganshire in Modern Times*

Lewis, S. (1833) *Topographical Dictionary of Wales*

Ludlow, N (1988) *The Welsh Historic Churches Project: Ceredigion Churches 1996-7* (Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed)

Ogilvy, J (1675) *Britannia*

Meyrick, S.R. (1810) *The History and Antiquities of the County of Cardigan*

Rees, D C (1936) *Tregaron: Historical and Antiquarian*

Smith, P (1988) *Houses of the Welsh Countryside*

Soulsby, I. and Jones, D (1976) *The Archaeological implications of redevelopment in the historic towns of Ceredigion District*

Soulsby, I. (1983) *The Towns of Medieval Wales – A study of their history, archaeology and early topography*

Walker, R. F. (1998) *Tourism in Cardiganshire, 1774-1974 in Cardiganshire County History Vol 3 – Cardiganshire in Modern Times*

Gwefannau ac Adnoddau Rhyngrwyd

<https://archwilio.org.uk/>

<https://archives.wales/>

<https://www.british-history.ac.uk/>

<https://cadw.gov.wales/advice-support/cof-cymru/search-cadw-records>

<https://ceredigionhistory.wales/tregaron/>

<https://coflein.gov.uk>

<https://cyngor-tregaron-council.org.uk/gb/>

<https://datamap.gov.wales/>

<https://discovery.nationalarchives.gov.uk/>

https://heneb.org.uk/archive/dyfed/HLC/uplandceredigion/_uplandceredigionsouthwest.htm

<https://en-gb.topographic-map.com>

<https://www.google.com/maps/>